Grwpiau anogaeth: Llawlyfr i ysgolion

Cynulleidfa Penaethiaid ac athrawon dosbarth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Trosolwg Pecyn gwybodaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd ynglŷn â grwpiau anogaeth yw'r llawlyfr hwn.

Camau i'w cymryd Dim – er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r canllaw hwn i'r:
Tîm Ennyn Diddordeb Disgyblion
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 1556
Ffacs: 029 2080 1051
e-bost: PETshare@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Mae'r ddogfen hon i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig *Adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR)*
Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

ISBN 978 0 7504 5860 3
© Hawlfraint y Goron 2010
F2971011

Cynnwys

1. Cyflwyniad **1**

1.1 Beth yw 'grŵp anogaeth"? 1
1.2 Mathau o grwpiau anogaeth 3
1.3 Oes grwpiau anogaeth yn fy ardal i? 3

Beth mae'r ymchwil yn dangos i ni 7

2. Sefydlu grŵp anogaeth **9**

2.1 Cynllunio a rhedeg eich grŵp 9
2.2 Dewis y staff 9
2.3 Paratoi 10
2.4 Rhagor o wybodaeth am sefydlu grŵp 10

3. Rhedeg grŵp anogaeth **11**

3.1 Adnoddau – Beth sydd ei angen? 11
3.2 Dewis eich dysgwyr 12
3.3 Dulliau asesu allweddol 13
3.4 Hybu agwedd ysgol-gyfan at anogaeth 14
3.5 Cynnwys rhieni a gwarcheidwaid 14
3.6 Gwerthuso 14
3.7 Y camau nesaf 15

4. Grwpiau anogaeth ar waith **16**

4.1 Grwpiau anogaeth cynradd 17
4.2 Grwpiau anogaeth Cyfnod Allweddol 3 20
4.3 Grwpiau clwstwr 21
4.4 Persbectif awdurdodau lleol 22

5. Cyd-fynd â strategaethau/polisïau **24**

Atodiad 1: Astudiaethau achos **26**
Atodiad 2: Deunyddiau enghreifftiol **47**

1. Cyflwyniad

Bwriadwyd y llawlyfr hwn fel **pecyn gwybodaeth am grwpiau anogaeth** i ysgolion cynradd ac uwchradd.

Ffordd gyfoes o ddarparu addysg gynhwysol yw grwpiau anogaeth ac maen nhw wedi eu cynllunio er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd dysgu i blant sy'n aml iawn ar y cyrion. Mae'r diddordeb mewn datblygu grwpiau anogaeth i gefnogi plant sydd â phroblemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol mewn ysgolion yn cynyddu, a hynny oherwydd y dystiolaeth sy'n cyfeirio at ganlyniadau cadarnhaol i blant agored i niwed a'u teuluoedd. Mae'r llawlyfr hwn yn darparu gwybodaeth am egwyddorion ac arferion grwpiau anogaeth ac yn rhoi cyngor ymarferol ynglŷn â dechrau, defnyddio a datblygu arferion effeithiol mewn grwpiau anogaeth.

Er bod y llawlyfr hwn yn disgrifio'r model Grŵp Anogaeth clasurol neu greiddiol, mae'r canllawiau a'r enghreifftiau o astudiaethau achos a geir yma'n cyfeirio at ystod ehangach o grwpiau anogaeth na'r model clasurol, a thrwy hynny'n rhoi gwell adlewyrchiad o'r sefyllfa yng Nghymru.

Mae'r Llawlyfr yn gweithredu un elfen o Gynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru (gweler Adran 5).

1.1 Beth yw 'grŵp anogaeth'?

Mae grŵp anogaeth:

- yn ddosbarth bach ar wahân;
- yn darparu amgylchedd diogel, wedi'i strwythuro, lle gellir rhagfynegi beth sy'n digwydd;
- yn rhoi cyfle i blant ailbrofi profiadau 'annog' cynnar a gollwyd.

Mae staff addysgu a chynorthwywyr addysgu yn **modelu perthynas gadarnhaol**. Maen nhw'n rhoi pwyslais ar ddatblygu **sgiliau iaith a chyfathrebu** ac yn canolbwyntio ar **ymddygiad cymdeithasol, emosiynol a heriol**.

Yn ogystal â datblygu sgiliau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm, anogir pobl ifanc i ddathlu'r cynnydd y maen nhw eu hunain wedi'i wneud drwy feithrin sgiliau fel gwrando, rhannu a chymryd tro, sgiliau a fydd yn lleihau neu'n chwalu rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu, ac yn sgil hynny'n eu galluogi i brofi llwyddiant yn ôl yn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd.

Grwpiau anogaeth:

> **Darpariaeth grŵp bach mewn ysgolion cynradd, fel arfer ar gyfer plant a nodwyd fel rhai ag ymddygiad sy'n anodd ei drin, a/neu brofiadau cynnar trawmatig.**

Estyn 2003, Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig
Trosolwg Estyn, Hydref 2003

Mae'r grŵp anogaeth clasurol yn cydymffurfio â chwe egwyddor sylfaenol, sy'n cael eu rhestru yma. Mae'r rhain i gyd yn seiliedig ar elfennau hanfodol ymddiried a pherthynas.

1. Edrychir ar y ffordd y mae plant yn dysgu o safbwynt datblygiadol

Mewn grwpiau anogaeth mae staff yn ymateb i blant, nid ar sail disgwyliadau mympwyol ynglŷn â 'lefelau cyrhaeddiad', ond ar sail cynnydd datblygiadol y plant. Asesir y cynnydd hwn drwy Broffil Boxall, fframwaith strwythuredig ar gyfer arsylwi ar ymgysylltiad ymddygiadol, cymdeithasol a gwybyddol dysgwyr mewn ystafelloedd dosbarth. Mae'r staff yn ymateb i'r plentyn unigol 'fel y mae', ar sail agwedd o dderbyn a pheidio â beirniadu.

2. Mae'r ystafell ddosbarth yn lle diogel

Mae'r amgylchedd, y ffordd y mae pethau wedi cael eu trefnu, a'r ffordd y mae'r grŵp yn cael ei reoli, yn cadw ansicrwydd dan reolaeth. Mae ystafell y grŵp anogaeth yn cynnig cyfuniad cytbwys o brofiadau addysgol a domestig sy'n ceisio cefnogi a datblygu perthynas y plant â'i gilydd ac â'r staff. Trefnir y grŵp anogaeth o gwmpas diwrnod strwythuredig â digwyddiadau rheolaidd y gellir eu rhagfynegi. Rhoddir llawer o sylw i fanylion; mae'r oedolion yn ddibynadwy ac mae eu hagwedd at y plant yn gyson. Mae grwpiau anogaeth yn ddarpariaeth addysgol sy'n gwneud y cyswllt pwysig rhwng rheoli emosiynau a dysgu gwybyddol.

3. Mae anogaeth yn bwysig er mwyn datblygu hunan-barch

Mae anogaeth yn ymwneud â gwrando ac ymateb. Mewn grŵp anogaeth mae 'popeth yn cael ei roi mewn geiriau', ac mae pwyslais ar yr oedolion yn ymgysylltu â'r plant mewn gweithgareddau dwyochrog sy'n cael eu rhannu e.e. chwarae/prydau bwyd/darllen/siarad am ddigwyddiadau a theimladau. Mae plant yn ymateb i gael eu gwerthfawrogi a'u gweld fel unigolion. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sylwi ar bethau bach sy'n cael eu cyflawni, a'u canmol; 'does dim brys mewn grwpiau anogaeth'.

4. Mae iaith yn ddull hollbwysig o gyfathrebu

Mae iaith yn fwy na sgil i'w dysgu. Mae'n ffordd o fynegi teimladau drwy eiriau. Mae plant grwpiau anogaeth yn aml yn 'actio' eu teimladau gan nad oes ganddyn nhw'r geiriau i roi 'enw' i'r ffordd y maen nhw'n teimlo. Mewn grwpiau anogaeth mae'r cyfleoedd anffurfiol i siarad a rhannu, e.e. croesawu'r plant i'r grŵp neu gael brecwast gyda'i gilydd, yr un mor bwysig â'r gwersi mwy ffurfiol sy'n dysgu sgiliau iaith. Defnyddir geiriau yn lle gweithredoedd i fynegi teimladau a chrëir cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau estynedig neu i annog chwarae dychmygus er mwyn deall teimladau pobl eraill.

5. Mae pob ymddygiad yn fath o gyfathrebu

Mae'r egwyddor hon yn sail i'r ffordd y mae oedolion yn ymateb i ymddygiad heriol neu anodd yn aml gan y plentyn. 'Ac ystyried yr hyn rwy'n ei wybod am y plentyn hwn a'i ddatblygiad beth mae'r plentyn hwn yn ceisio'i ddweud wrtha'i?' Mae deall beth mae plentyn yn ei gyfathrebu drwy ymddygiad yn helpu staff i ymateb yn gadarn, ond heb gosbi, drwy beidio â chael eu pryfocio neu eu digalonni. Os yw'r plentyn yn gallu synhwyro bod rhywun yn deall ei deimladau gall hyn helpu i dawelu sefyllfaoedd anodd. Mae'r oedolyn yn gwneud y cysylltiad rhwng byd allanol/mewnol y plentyn.

6. Mae pontio yn bwysig ym mywydau plant

Mae'r grŵp anogaeth yn helpu'r plentyn i wneud y symudiad anodd o'r cartref i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r plentyn yn dod ar draws nifer o newidiadau yn ddyddiol, e.e. rhwng sesiynau a dosbarthiadau a rhwng gwahanol oedolion. Mae newid trefniadau arferol bob amser yn anodd i blant sy'n agored i niwed ac mae angen rheoli hyn yn ofalus drwy baratoi a chefnogi.

Addaswyd o wefan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth:
http://www.nurturegroups.org/pages/the_six_principles.html

1.2 Mathau o grwpiau anogaeth

Disgrifir y model grŵp anogaeth 'clasurol' fel 'amgylchedd dysgu mewn ysgol wedi'i gynllunio'n benodol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sydd gan blant a phobl ifanc' ond sydd heb eu diwallu . Mae grŵp anogaeth fel arfer yn cynnwys hyd at ddeuddeg plentyn a dau aelod o staff, y ddau ohonyn nhw wedi cael hyfforddiant mewn theori ac ymarfer Anogaeth. Mae'r grŵp bychan o hyd at 12 wedi'i lunio'n addysgol er mwyn rhoi'r profiad o gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp i ddysgwyr a sicrhau bod modd dysgu'r sgiliau cymryd rhan mewn grŵp y bydd ar y plant eu hangen er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus mewn dosbarth prif ffrwd.

Mae rhagor o amrywiadau o'r model grŵp anogaeth 'clasurol'. Maen nhw i gyd yn seiliedig ar yr egwyddorion sy'n sail i'r model clasurol, ond bod ganddyn nhw wahanol strwythur a/neu nodweddion trefniadol e.e. yr ystod oedran y darperir ar ei chyfer, safle(oedd) a faint o amser y mae dysgwyr yn ei dreulio yn y grŵp. Fodd bynnag, mae'r grwpiau hyn yn cadw nodweddion craidd y model clasurol fel y grŵp bach o ran maint, staffio gan ddau aelod o staff a'r pwyslais canolog ar ddatblygiad a'r cwricwlwm cyfannol. Ceir rhagor o fanylion am yr amrywiadau yn Adran 2.

1.3 Oes Grwpiau Anogaeth yn fy ardal i?

Mae grwpiau anogaeth wedi dod yn fath poblogaidd iawn o ddarpariaeth oherwydd eu heffeithiolrwydd, ymhlith athrawon a gwarcheidwaid, ar adeg pan fo cryn bryder ynglŷn â gallu ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, yn enwedig y rhai hynny sydd ag Anawsterau Cymdeithasol,

Emosiynol ac Ymddygiadol. Ar hyn o bryd mae dros 1,300 o grwpiau anogaeth mewn ysgolion yn y Deyrnas Unedig, yn cwmpasu'r ystod oed o dair i ddeunaw oed. Mae rhai'n cael eu rhedeg am gyn lleied â dwy sesiwn yr wythnos tra mae eraill yn rhedeg am wyth sesiwn yr wythnos. Mae rhai grwpiau wedi cael eu sefydlu gan ysgolion unigol ac mae eraill wedi cael eu sefydlu gan awdurdodau lleol ar gyfer clwstwr o ysgolion mewn un ardal.

Mae 101 o grwpiau anogaeth yng Nghymru (gweler tabl 1), yn ôl ffigurau'r Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth ar gyfer 2007.

Tabl 1: Nifer y Grwpiau Anogaeth yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol

	Blynyd-doedd Cynnar	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2	Cynradd Oed cymysg	Uwchradd	Ysgol Arbennig
Abertawe	0	1	4	0	0	0
Blaenau Gwent	0	0	0	2	1	0
Bro Morgannwg	0	0	0	0	0	0
Caerdydd	0	0	0	0	1	0
Caerffili	1	2	2	1	2	0
Casnewydd	1	2	2	1	1	0
Castell-nedd Port Talbot	2	6	12	6	2	1
Ceredigion	0	1	1	0	1	0
Conwy	0	0	0	0	0	0
Gwynedd	0	0	1	0	2	0
Merthyr Tudful	0	1	1	0	1	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0	3	0	0
Powys	0	0	0	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	2	5	0	6	0
Sir Benfro	0	2	6	0	3	0
Sir Ddinbych	0	0	1	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	0	0	1	2	0	0
Sir Fynwy	0	1	0	0	0	1
Sir y Fflint	0	0	1	0	1	0
Torfaen	0	0	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	1	0	3	0	0
Cyfanswm	**4**	**19**	**37**	**18**	**21**	**2**

Ffynhonnell: Gwaith ymchwil mewnol a gwblhawyd gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth yn 2007.

Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru'n cefnogi un ysgol yn unig neu ychydig o ysgolion i dreialu grwpiau anogaeth ar eu rhan. Mae'r cynlluniau peilot hyn fel arfer yn cynnwys:

- seicolegwyr addysg yr awdurdod lleol;
- gwasanaethau cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol;
- athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol;
- cefnogaeth on Track;
- Timau Iechyd Meddwl sylfaenol;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y GIG.

Mae rhai awdurdodau lleol, er enghraifft Castell-nedd Port Talbot, wedi helpu ysgolion i sefydlu eu grwpiau eu hunain a sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant priodol. Mae Castell-nedd Port Talbot bellach yn hybu grwpiau anogaeth fel ymyriad cynnar prif ffrwd ym mhob rhan o'r awdurdod (gweler Astudiaeth Achos I yn yr atodiad).

Beth mae'r ymchwil yn dangos i ni

Mae nifer y dogfennau sy'n ymwneud â Grwpiau Anogaeth wedi cynyddu yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau sydd ar gael yn disgrifio Grwpiau Anogaeth neu'n darparu astudiaethau achos sy'n dangos llwyddiant ymarferol – yn yr adran hon ceir crynodeb o'r prif ddogfennau.

Cefndir datblygiad Grwpiau Anogaeth

Sefydlwyd y Grwpiau Anogaeth cyntaf yng nghanol Llundain yn y 1970au fel ffordd o ymateb i'r nifer sylweddol o blant y cofnodwyd bod ganddyn nhw Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol pan oedden nhw'n dechrau yn yr ysgol gynradd. Yn dilyn y pwyslais cynyddol ar gynnwys pob dysgwr mewn ysgol brif ffrwd yn y 1990au cafwyd diddordeb newydd mewn Grwpiau Anogaeth. Cydnabyddir mai dysgwyr ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yw'r her fwyaf o safbwynt cynhwysiant. Datblygodd y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth i gefnogi'r twf hwn, ac mae bellach yn cysylltu, hyfforddi a chefnogi dros 1,000 o Grwpiau Anogaeth ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau hyn mewn ysgolion cynradd ar hyn o bryd, ond mae'r nifer mewn ysgolion uwchradd yn cynyddu'n gyflym.

Beth yw Grŵp Anogaeth?

Mae'r Grŵp Anogaeth wedi'i gynllunio er mwyn darparu gweithgareddau a phrofiadau penodol, sydd wedi'u nodi yn y proffil asesu, i ddysgwyr sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Mae'n dwyn ynghyd y Cwricwlwm Cenedlaethol a chwricwlwm sydd wedi'i lunio er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol heb eu diwallu sydd gan y plant hyn. Mae Grŵp Anogaeth yn cynnwys hyd at ddeuddeg plentyn a dau aelod o staff - athro/athrawes a chynorthwyydd dosbarth – y ddau wedi cael hyfforddiant mewn theori ac ymarfer Anogaeth. Ei nod yw darparu amgylchedd diogel, croesawus a llawn gofal ar safle'r ysgol ar gyfer dysgu a darparu profiadau emosiynol cadarnhaol er mwyn cynyddu'r potensial i fynd yn ôl i addysg brif ffrwd a gwneud cynnydd academaidd yn y dyfodol.

Sut mae Grŵp Anogaeth yn gweithio?

Mae plant yn mynychu'r Grŵp Anogaeth ar gyfer sesiynau rheolaidd drwy gydol yr wythnos ond disgwylir iddyn nhw ddychwelyd i addysg brif ffrwd fel dysgwyr amser llawn ar ôl tri neu bedwar tymor. Cynigir nifer o wahanol weithgareddau strwythuredig sy'n ceisio helpu'r bobl ifanc hyn i ddatblygu ymddiriedaeth a sgiliau cyfathrebu, a chael mwy o hyder a hunan-barch. Yn aml iawn mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys rhannu newyddion, sesiynau

llythrennedd emosiynol, gemau cymryd tro, gweithgareddau grŵp, tasgau cwricwlwm ffurfiol, a 'Brecwast Anogaeth' lle mae'r dysgwyr a'r athrawon yn rhannu byrbryd ac yn ymgysylltu â'i gilydd. Mae mynediad dysgwyr i'r Grŵp Anogaeth, a chynnydd y dysgwyr o fewn y grŵp, yn cael ei fonitro drwy fframwaith a elwir yn Broffil Boxall.

Llwyddiant Grwpiau Anogaeth

Mae llawer o astudiaethau academaidd wedi dod i'r casgliad bod dysgwyr y Grwpiau Anogaeth clasurol wedi gwella'r ffordd y maen nhw'n gweithredu yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn ymddygiadol, a hynny i raddau llawer mwy na disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol nad oedden nhw'n mynychu grwpiau anogaeth. Maen nhw hefyd yn cyfeirio at welliant cyffredinol yn hunanreolaeth dysgwyr, yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol, hunanymwybyddiaeth, hyder a sgiliau ar gyfer dysgu. Mae'r astudiaethau hynny sydd wedi dilyn hynt dysgwyr dros gyfnod wedi dangos bod mwyafrif helaeth o'r dysgwyr wedi llwyddo i ddychwelyd i addysg brif ffrwd. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod ysgolion sydd â grwpiau anogaeth yn dangos gwelliant sylweddol o ran deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Darllen Pellach:

Dyma rai o'r deunyddiau darllen sy'n rhoi rhagor o wybodaeth:

Y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth: www.nurturegroups.org/

Bennathan, M. a Boxall, M. (2000) Effective intervention in Primary Schools: Nurture Groups, 2il argraffiad London Fulton

Cooper, P. a Tiknaz,Y. (2006) Nurture Groups in School and at Home - Connecting with Children with Social, Emotional and Behavioural Difficulties, JK Publishers

2. Sefydlu grŵp anogaeth

Er mwyn sefydlu grŵp anogaeth, a chyflawni'r canlyniadau dymunol, rhaid cymryd nifer o gamau i sicrhau bod y grŵp anogaeth yn gallu mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr a'i fod yn gynaliadwy. Y camau hyn yw cynllunio'r grŵp, dewis y staff a sicrhau bod gwaith paratoi addas yn cael ei wneud.

2.1 Cynllunio a rhedeg eich grŵp

- Er mwyn sicrhau llwyddiant, mae angen i'r holl lywodraethwyr, yr uwch dîm rheoli a staff yr ysgol ddeall pwrpas a sail resymegol grwpiau anogaeth. Gwahoddwch rywun o'r tu allan i'r ysgol i ddarparu'r sesiwn codi ymwybyddiaeth cyntaf. Gall y sesiwn gael ei gyflwyno gan unrhyw weithiwr proffesiynol yn eich awdurdod lleol chi sydd wedi cael yr hyfforddiant ei hun, sy'n gweithio mewn grŵp anogaeth neu sy'n cefnogi grwpiau anogaeth.
- Neu, mae gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth a rhai awdurdodau lleol dimau sydd wedi'u trwyddedu i gynnal y cwrs achrededig dros gyfnod o bedwar diwrnod.
- Trefnwch fod rhai, neu'r staff, i gyd, yn ymweld â grŵp anogaeth sydd wedi'i sefydlu'n barod.
- Dewch i gytundeb bod angen grŵp anogaeth yn yr ysgol.
- Gwnewch y datblygiad yn rhan o'r cynllun datblygu ysgol-gyfan.
- Sefydlwch drefniadau ariannu, monitro a gwerthuso sy'n briodol i'ch ysgol chi.
- Mae'n arfer da i ysgolion gael canllawiau polisi ar grwpiau anogaeth.

2.2 Dewis y staff

- Dewiswch eich staff anogaeth yn ofalus. Mae'r ffordd y mae'r ddau aelod hyn o'r staff yn rhyngweithio â'r dysgwyr a chyda'i gilydd yn allweddol i lwyddiant y grŵp.
- Mae angen i o leiaf un o'r aelodau staff, neu'r ddau os yw hynny'n bosibl, gael hyfforddiant mewn theori ac ymarfer grwpiau anogaeth.
- Mae'r cwrs tystysgrif pedwar diwrnod mewn theori ac ymarfer grwpiau anogaeth ar gael gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth neu gan brifysgolion Caergrawnt, Caerlŷr a Llundain. Mae'r cwrs yn amrywio o £450 i £700 y pen ar ddyddiad cyhoeddi'r canllawiau hyn.

  Hyfforddiant y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth:
  http://www.nurturegroups.org/pages/train_conf.html

  Prifysgol Caerlŷr:
  http://www.ioe.ac.uk/study/departments/lcc/SECONDARY_SS12F-10C1.html

Sefydliad Addysg:
http://www.le.ac.uk/se/ppdteachers/ppdteachers.html

Prifysgol Caergrawnt:
http://www.educ.cam.ac.uk/ppd/courses/

2.3 Paratoi

- Datblygwch broses dewis dysgwyr y bydd y staff a'r rhieni/gwarcheidwaid yn ei deall.
- Cynlluniwch sut y byddwch yn sicrhau bod y grŵp anogaeth yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'ch dosbarthiadau eraill.
- Cynlluniwch sut y byddwch yn galluogi staff i sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y cwricwlwm a gweithgareddau anogaeth a sut y byddwch yn gallu datblygu systemau cynllunio a chofnodi effeithiol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth fydd yn digwydd os bydd aelod o'r staff yn absennol.
- Os oes arnoch angen codi arian, rhowch wybod i'r rhieni/gwarcheidwaid am y fenter newydd yr hoffech ei chael yn eich ysgol, gan sicrhau yn gyntaf ei bod yn cael ei gweld fel rhywbeth a allai fod o fudd i bob plentyn.
- Os ydych wedi sicrhau cyllid, paratowch ystafell 'anogaeth' yn gyntaf yna rhowch wybod i'r rhieni/gwarcheidwaid.
- Cynhaliwch gyfarfod rhannu gwybodaeth yn yr ystafell, neu yn y brif neuadd, ond rhowch gyfle i bawb weld yr ystafell 'anogaeth'. Efallai y bydd modd gwahodd rhiant un o'r dysgwyr mewn grŵp anogaeth arall i siarad â'r rhieni ynglŷn â sut y mae grŵp anogaeth wedi eu helpu nhw.
- Gan ddibynnu ar eu hoedran a'u hyder, bydd rhai dysgwyr yn gallu siarad am y profiad eu hunain. Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu amser ar gyfer cwestiynau a sylwadau.
- Rhowch gynnig ar daflenni, boreau coffi neu gyfarfodydd min nos i hybu'r syniad o grwpiau anogaeth.

2.4 Rhagor o wybodaeth am sefydlu grŵp

Mae'r Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth, sy'n gyd-awduron y llawlyfr hwn, yn elusen aelodaeth genedlaethol sy'n hybu ac yn cefnogi datblygiad grwpiau anogaeth. Mae'n cynnig gwasanaethau, hyfforddiant, sicrwydd ansawdd a chefnogaeth i'r aelodau drwy gyhoeddiadau. Mae llawer o'r deunydd sydd ar y wefan, www.nurturegroups.org ar gael am ddim i rai sydd ddim yn aelodau, ond y tâl aelodaeth yw £30 y flwyddyn i unigolion. Mae aelodaeth ysgol yn costio £96.00 i ysgolion cynradd a £125 i ysgolion uwchradd.

3. Rhedeg grŵp anogaeth

Mae'r adrannau isod yn rhoi cyngor ymarferol ynglŷn â'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn dechrau grŵp anogaeth, sut i ddewis y dysgwyr a fyddai'n elwa fwyaf o gael eu rhoi mewn grŵp anogaeth, y rôl y mae angen i'r ysgol, y rhieni a'r athrawon ei chwarae a'r cymwysterau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar staff. Mae'r adran hon hefyd yn dangos sut i fonitro cynnydd dysgwyr a gwerthuso effaith gyffredinol y grŵp anogaeth ar ymddygiad, datblygiad cymdeithasol a chyrhaeddiad academaidd dysgwyr.

3.1 Adnoddau – Beth sydd ei angen?

1. **Staff da, sydd wedi cael hyfforddiant cymwys.**

   Rhaid i chi fod yn hyderus y bydd y ddau aelod hyn o'r staff:

   - yn cael eu parchu gan aelodau eraill o'r staff a'r rhieni;
   - yn meddu ar rinweddau hanfodol dyfalbarhad a hiwmor;
   - yn creu amgylchedd dysgu effeithiol;
   - yn sicrhau cymhelliant a'r gallu i ganolbwyntio;
   - yn gosod gofynion realistig ac yn eu nodi'n glir;
   - yn defnyddio dulliau rheoli ymddygiad cadarnhaol;
   - yn addysgu dysgwyr i werthfawrogi a pharchu cyfraniad pobl eraill.
   - yn sicrhau cefnogaeth staff prif ffrwd yr ysgol yn eu gwaith cynllunio

2. **Ystafell â chyfarpar a deunyddiau** sy'n helpu i ddarparu cyfleoedd dysgu ar gyfer twf emosiynol ac ymddygiadol yn un o feysydd gwaith y cwricwlwm:

   - bwrdd i weithio arno;
   - lle eistedd â chlustogau meddal mewn rhan o'r ystafell lle gellir cynnal gweithgareddau anffurfiol;
   - ardal baratoi a rhannu bwyd;
   - ardal chwarae rôl sy'n briodol i oed y dysgwyr;
   - adnoddau chwarae;
   - drych;
   - mynediad at adnoddau cwricwlaidd sy'n briodol i oedran a datblygiad y dysgwyr.

3. **Systemau er mwyn rhedeg y grŵp yn effeithiol:**

   - dewis y plant/bobl ifanc yn ofalus;

- cael cefnogaeth y rhieni;
- cysylltu ag asiantaethau eraill lle bo'n briodol;
- monitro cynnydd;
- asesu, cynllunio a datblygu cynllun addysg unigol (gweler adran 3.3);
- cyfathrebu'n rheolaidd â phawb sy'n gysylltiedig â'r grŵp;
- cytuno pryd i ailsefydlu.

3.2 Dewis eich dysgwyr

Mae plant sy'n manteisio ar ymyriad grŵp anogaeth yn methu â rheoli eu hymateb i straen ac ansicrwydd ac yn mynd i deimlo'n rhwystredig yn hawdd. Maen nhw'n cael anhawster:

- i ymddiried mewn oedolion a datblygu perthynas;
- i rannu adnoddau a sylw oedolion a dysgwyr eraill;
- i ofyn am help;
- i deimlo hunanwerth;
- i archwilio'r byd o'u cwmpas;
- i roi cynnig ar bethau newydd yn hyderus heb ofni methu.

Maen nhw'n dod o deuluoedd sydd, am lawer o wahanol resymau, wedi methu â rhoi'r gefnogaeth a'r arweiniad cyson y mae ar bob plentyn ei angen er mwyn paratoi ar gyfer gofynion bywyd yn yr ysgol.

Pwyntiau i'w hystyried

1. Cynnwys y staff i gyd fel bod yr ysgol gyfan yn gwybod sut a pham y mae ar rai dysgwyr angen cymorth ychwanegol i ddygymod â'r ysgol.
2. Ni ddylai unrhyw aelod o'r staff boeni y bydd yn cael ei weld fel methiant os yw'n argymell dysgwr ar gyfer y cymorth ychwanegol hwn.
3. Rhannu gwybodaeth a chadw cyfrinachedd.
4. Gwybodaeth am gefndir y dysgwr a'r teulu/gwarcheidwad.
5. Portffolio o arsylwadau, rhestrau cyfeirio ac asesiadau sy'n dystiolaeth bod dysgwr yn addas i'w gynnwys yn y grŵp anogaeth. Mae awgrymiadau ar gyfer y rhain i'w gweld yn *'Running a Nurture Group'* SAGE Simon Bishop 2008.
6. Mae'n bwysig iawn ystyried cydbwysedd y grŵp:
   - nifer y bechgyn a'r merched;
   - yr ystod oedran;

- y cyfuniad o ddysgwyr sy'n tynnu'n groes a dysgwyr sy'n mynd i'w cragen;
- cystadleuaeth rhwng brodyr a chwiorydd os ydych yn dechrau â dysgwyr o'r un teulu.

3.3 Dulliau asesu allweddol

Proffiliau Boxall

Dulliau asesu yw'r Proffiliau Boxall er mwyn nodi beth sy'n rhwystro dysgwyr rhag dysgu, a sicrhau bod modd mynd ati wedyn i gynllunio ymyriad effeithiol. Mae'r Proffil gwreiddiol, a ddatblygwyd i'w ddefnyddio â phlant oed cynradd, i'w weld yn *The Boxall Profile; Handbook for Teachers*, a gyhoeddwyd ym 1998 gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth. Yn 2010 cyhoeddwyd Proffil newydd mewn Llawlyfr o'r enw *The Boxall Profile for Young People* sydd wedi'i anelu at ysgolion uwchradd. Mae hwn yn seiliedig ar ymchwil newydd i normau ymddygiad y grŵp hŷn. Mae'r derminoleg wedi'i newid i fod yn briodol i oed y dysgwyr, ond mae'r ddau Broffil yn seiliedig ar resymwaith grwpiau anogaeth. Gellir prynu'r *Boxall Profile Handbook* am £20 yn http://www.nurturegroups.org. Gellir prynu ffurflenni ychwanegol o'r safle hefyd am gost o £4 am ddeg.

Mae'n hanfodol bod yr asesiadau'n cael eu defnyddio gyda'r Llawlyfrau er mwyn dehongli'r canlyniadau'n iawn. Gollen nhw dynnu sylw at nifer o wahanol bryderon, nad sydd o reidrwydd yn amlwg i ddechrau, a helpu i sicrhau cyfathrebu tryloyw rhwng staff yr ysgol, ynghyd â dechrau trafodaethau gyda rhieni.

Mae Proffil Boxall yn cynnwys dwy adran:

1. meysydd datblygu sy'n disgrifio gwahanol agweddau ar broses ddatblygu'r dysgwr;
2. Proffil diagnostig sy'n disgrifio ymddygiadau sy'n atal y dysgwr rhag ymwneud â'r ysgol neu'n amharu ar y broses honno.

Holiadur Cryfderau ac Anawsterau Goodman

Dull asesu allweddol arall yw Holiadur Cryfderau ac Anawsterau Goodman, sy'n ategu Proffil Boxall. Asesir problemau ymddygiad, symptomau emosiynol, gorfywiogrwydd, problemau â chyfoedion ac ymddygiad rhag-gymdeithasol yn ystod y chwe mis blaenorol. Gellir defnyddio'r Holiadur gyda rhieni, i gael pwyntiau cychwynnol ar gyfer trafodaeth am ddatblygu ymyriad. Mae'r dull asesu ar gael am ddim yn www.sdqinfo.com.

Gellir defnyddio'r ddau ddull fel dull asesu cyn mynediad, a hefyd er mwyn monitro cynnydd drwy gydol y cyfnod yn y grŵp anogaeth ac i helpu i benderfynu ynglŷn ag adeg addas ar gyfer ailsefydlu. Gellir defnyddio graddfa ailintegreiddio Rebecca Doyle i gefnogi ac i ategu'r penderfyniad hwn ymhellach.

3.4 Hybu agwedd ysgol-gyfan at anogaeth

Mae ymchwil wedi dangos bod effeithiolrwydd grwpiau anogaeth yn gysylltiedig ag agwedd ysgol-gyfan at anogaeth. Mae hyn yn golygu bod ysgolion yn debygol o gael y gorau o grwpiau anogaeth:

- pan fo'r ysgol gyfan wedi ymrwymo i hyrwyddo ymgysylltiad cymdeithasol ac addysgol pawb;
- pan fo'r egwyddorion sy'n sail i waith anogaeth yn cael eu derbyn, a phob aelod o'r staff, a phobl eraill sy'n ymwneud â'r ysgol, yn deall ei natur gymhleth ac anodd;
- pan fo grwpiau anogaeth wedi cael eu hintegreiddio'n llawn mewn ysgolion prif ffrwd ac ym mholisïau a strwythurau'r awdurdod lleol;
- pan fo camau gweithredu ystyrlon yn cael eu creu er mwyn hwyluso amgylchedd sy'n rhoi mwy o 'anogaeth' drwy'r ysgol gyfan, drwy gael athrawon i ryngweithio, cyfathrebu a chyfnewid arferion da;
- pan fo grwpiau anogaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol ac yn effeithio ar ddiwylliant ac arferion yr ysgol gyfan, gan hwyluso amgylchedd sy'n rhoi mwy o 'anogaeth' drwy'r ysgol gyfan.

3.5 Cynnwys rhieni a gwarcheidwaid

Mae'n hollbwysig bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael gwybodaeth, ac yn cael eu cynnwys yn y broses o redeg y grŵp anogaeth. Dylai rhieni/gwarcheidwaid gael eu gwahodd yn rheolaidd i ymuno â gweithgareddau'r grŵp anogaeth a dylid gofyn am adborth ganddyn nhw. Mae'n syniad da hefyd darparu deunydd am grwpiau anogaeth iddyn nhw ei ddarllen. Ceir taflen enghreifftiol ar gyfer rhieni, taflen enghreifftiol ar gyfer plant a llythyr enghreifftiol ar gyfer rhieni yn Atodiad 2.

Mae llawer o grwpiau anogaeth yn cysylltu eu gwaith â'r strategaeth rianta leol, *Triple P, Parenting Puzzle* neu'r deunyddiau SEAL.[1] Mae'r canlyniadau'n gadarnhaol iawn, ac mae llawer o ysgolion yn dweud eu bod wedi llwyddo i ymgysylltu â rhieni am y tro cyntaf ar ôl eu gwahodd i weithio gyda'r staff anogaeth.

3.6 Gwerthuso

Bydd llawer o bobl yn awyddus i weld sut y mae'r grŵp anogaeth yn dod yn ei flaen a pha wahaniaeth y mae'n ei wneud. Mae'n bosibl y gofynnir i ysgolion ddarparu tystiolaeth ynglŷn â'r gwahaniaeth y maen nhw'n ei wneud, i ddibenion arolwg neu gais am arian yn y dyfodol.

Tan yn ddiweddar, ychydig iawn o ymchwil oedd wedi cael ei wneud i effeithiolrwydd grwpiau anogaeth, ond mae nifer cynyddol o werthusiadau wedi cael eu cyhoeddi. Roedd rhai o'r gwerthusiadau hyn a oedd yn cael eu gwneud ar raddfa fawr yn

[1] *Triple P – Positive Parenting Programme*; *Parenting Puzzle* – canllaw â gweithgareddau ymarferol i rieni/gwarcheidwaid; *SEAL, Agweddau emosiynol a Chymdeithasol ar Ddysgu*, adnoddau i helpu ysgolion i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol plant.

ymwneud â grwpiau rheoli, ac yn cymharu dysgwyr mewn ysgolion gyda grwpiau anogaeth â rhai mewn ysgolion heb grwpiau anogaeth.

Rhai pwyntiau i'w cadw mewn cof wrth werthuso:

- "cofnodi'r canlynol: lefelau presenoldeb; prydlondeb; nifer wedi'u gwahardd; gwybodaeth am asesu a chanlyniadau ychwanegu gwerth; newid ymddygiad; agwedd; gweithgarwch; cyrhaeddiad; a sgiliau cymdeithasol y disgyblion";
- casglu adborth gan athrawon (a rhieni hefyd);
- cofnodi newidiadau mewn ymddygiad; agwedd; gweithrediad; cyrhaeddiad; sgiliau cymdeithasol y dysgwyr; lefelau presenoldeb; lefelau gwahardd; gwybodaeth am asesu a chanlyniadau'r gwerth a ychwanegwyd;
- edrych am effeithiau cadarnhaol ar yr ysgol gyfan;
- cofnodi data ynglŷn â'r amser a dreulir yn y grŵp anogaeth.

3.7 Y camau nesaf

Fel rhan o'r broses o ail-integreiddio i'r ystafell ddosbarth mae rhai ysgolion yn defnyddio grwpiau dilynol fel clybiau ar ôl ysgol Pyramid sy'n cael eu harwain gan ContinYou (gweler http://www.continyou.org.uk/children_and_families/pyramid/home) a'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion Place2Be (gweler www.theplace2be.org.uk).

4. Grwpiau anogaeth ar waith

Beth bynnag yw oed y dysgwr, a faint bynnag o gyllid sydd gennych, mae yna grŵp anogaeth a allai helpu dysgwyr eich ysgol chi. Heb os nac oni bai, y grwpiau anogaeth mwyaf llwyddiannus yw'r rhai hynny sy'n cael eu rhedeg gan ysgolion â'u cyllidebau eu hunain. Er hyn, mae modelau gwahanol wedi eu sefydlu ar hyd a lled y wlad, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dulliau gweithredu amrywiol yn debygol o fod yn llwyddiannus os yw nhw'n dilyn y chwe egwyddor sylfaenol a bennwyd gan Marjorie Boxall dros ddeugain mlynedd yn ôl.

Roedd y grwpiau anogaeth gwreiddiol wedi'u lleoli mewn ysgol gynradd ac wedi eu hanelu'n bennaf at blant a oedd yn dechrau yn yr ysgol:

- Roedden nhw'n cynnwys grwpiau o hyd at 12 o blant;
- Roedd y plant yn mynychu'r grwpiau am y rhan fwyaf o'r diwrnod, ac yn dychwelyd i'w dosbarth eu hunain ar gyfer sesiwn diwedd y prynhawn, ac ar gyfer prynhawniau Mercher pan fyddai'r staff yn adolygu ac yn cynllunio;
- Roedden nhw'n cael eu staffio gan un athro/athrawes ac un cynorthwyydd dosbarth;
- Roedd y plant yn dychwelyd i'r dosbarth ar ôl tua 2 i 4 tymor yn y grŵp anogaeth.

Mae'r model 'cynradd' newydd yn cynnwys y nodweddion isod:

- grwpiau o hyd at 12 plentyn;
- Cyfnod Allweddol 1 (4-7 oed) o leiaf 4 sesiwn;
- Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) o leiaf 4 sesiwn;
- bore Gwener ar gyfer cynllunio, cyfarfod ac arsylwi; prynhawniau Mercher ar gyfer gwaith gyda rhieni;
- cael eu staffio yn aml gan ddau aelod o staff â chymhwyster NNEB neu gymhwyster cyfwerth (ond rhai grwpiau â mentor dysgu, athro/athrawes ac ati).

Er bod grwpiau anogaeth yn cael eu sefydlu i ateb angen, mae cyllid yn aml yn dylanwadu ar yr hyn y gellir ei gynnig.

- Sefydlir rhai grwpiau gan ysgolion unigol (Atodiad 1, 2, 3 a 4).
- Sefydlir eraill gan Awdurdodau Lleol ar gyfer clwstwr o ysgolion mewn un ardal (Atodiad 5).
- Mae rhai'n rhedeg am gyn lleied â dwy sesiwn yr wythnos tra mae eraill yn rhedeg am hyd at naw yr wythnos.
- Mae rhai grwpiau anogaeth wedi bod yn cael eu rhedeg ers nifer o flynyddoedd ac wedi addasu a datblygu drwy gydol y cyfnod hwnnw.

Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu rhai o'r gwahanol fathau o grwpiau anogaeth sy'n cael eu rhedeg yng Nghymru.

4.1 Grwpiau anogaeth cynradd

Mewn lleoliadau cynradd, mae plant yn gweithio mewn parau, mewn grwpiau bach ac 1:1 gydag oedolyn pan fo angen. Fel arfer, mae'r un grŵp o ddysgwyr yn gorfod cael eu cefnogi yn y grŵp anogaeth am ddeuddeg awr yr wythnos (ac mae'n rhaid i hyn ddigwydd er mwyn cael Dyfarniad Ansawdd Marjorie Boxall gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth).

Mae'r disgrifiad hwn wedi'i eirio'n ofalus gan fod rhai grwpiau wedi'u trefnu yn y fath fodd fel bod gwahanol ddysgwyr yn cael eu cefnogi ar wahanol adegau yn y diwrnod. Enghraifft o hynny fyddai Ysgol Gymuned y Gors yn Abertawe lle mae dysgwyr Cyfnod Allweddol 1 yn cael eu cefnogi yn y grŵp yn y boreau a dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn y prynhawn.

Astudiaeth Achos – Ysgol Gymuned y Gors, Abertawe

Ysgol gynradd yw Ysgol Gymuned y Gors, ar ochr ogleddol ystâd dai cymdeithasol fawr yn Abertawe. Mae pocedi o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd difrifol ar yr ystâd. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol â'r gwaith o wella ymddygiad yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Er hynny, roedd nifer o ddysgwyr ar y cyrion heb wneud unrhyw gynnydd o gwbl, ac roedd dadrithiad cynnar yn amlwg yn eu hagwedd at waith. Clywodd yr ysgol am grwpiau anogaeth. Edrychodd ar arferion da mewn grwpiau o'r fath yn Llundain. Gwelodd eu gwerth a'u potensial ar unwaith, ac ymrwymodd iddyn nhw. Hyfforddwyd pedwar aelod o'r staff yn Sefydliad Addysg Llundain, paratowyd Ystafell Anogaeth, yna aethpwyd ati i hyfforddi'r staff i gyd, i ymgysylltu â rhieni a llywodraethwyr a dewis dysgwyr ar gyfer y grwpiau cyntaf.

Erbyn hyn mae Grwpiau Anogaeth Cyfnod Allweddol 1 a Cyfnod Allweddol 2 wedi'u hen sefydlu yn yr ysgol sydd wedi cael cyfres o adroddiadau arolwg rhagorol. Yn ei adroddiad yn Ionawr 2010 dywedodd Estyn fod yr ysgol yn rhoi "sylw i anghenion dysgwyr agored i niwed yn eithriadol o dda drwy'r Grŵp Anogaeth rhagorol sy'n darparu'n effeithiol iawn ar gyfer eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol". Mae'n cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol ac yn cael ei staffio gan athro a Chynorthwyydd Cymorth Dysgu sydd wedi cael eu hyfforddi gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth. Mae gwaith y Grŵp Anogaeth wedi newid cymeriad yr ysgol, naws y dosbarthiadau a'r profiad cyflawn a gynigir i ddysgwyr. Yn fyr, mae cyflwyno Proffiliau Boxall a Grwpiau Anogaeth yn yr ysgol hon wedi golygu bod modd paratoi plant yn emosiynol ac yn gymdeithasol ar gyfer eu gwaith academaidd yn yr ystafell ddosbarth, a gwella ansawdd bywyd y rhai hynny sydd wedi mynychu'r Grŵp Anogaeth a'u teuluoedd yn fawr iawn. Yn bennaf oll, mae wedi gwneud gwahaniaeth i'r gymuned leol a fydd yn cael effaith pellach yn y dyfodol.

Gweler Astudiaeth Achos A am ragor o wybodaeth

Mae grŵp anogaeth arall sydd wedi'i sefydlu ar gyfer y dysgwyr ieuengaf i'w weld yn Ysgol Babanod a Meithrin Gorseinon, Abertawe. Mae'r grŵp hwn yn cael ei redeg gan ddau Gynorthwyydd Cymorth Dysgu sy'n gweithio mewn cysylltiad agos â'r staff yn y dosbarthiadau sefydlog.

Astudiaeth Achos – Ysgol Babanod a Meithrin Gorseinon

Mae gan Ysgol Babanod Gorseinon ychydig dros 200 o ddysgwyr ac mae mewn ardal sydd â nifer cynyddol o broblemau cymdeithasol, gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chyfraddau uchel o gam-drin yn y cartref. Roedd llawer o blant yn arfer ei chael hi'n anodd i setlo yn yr ysgol, ac yn dangos arwyddion cynnar o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, hunan-barch isel a methu â chyflawni mewn llawer o feysydd cwricwlaidd. Roedden nhw hefyd yn gweld dysgu prif ffrwd yn anodd ac nid oedden nhw bob amser yn barod i fodloni gofynion cymdeithasol a deallusol yr ysgol o ganlyniad i ddiffyg anogaeth gynnar. Arweiniodd ymwybyddiaeth o lwyddiant grwpiau anogaeth eraill at greu grŵp anogaeth yn yr ysgol gan ddefnyddio cyllid Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (Rhagori).

Neilltuwyd ystafell anogaeth a chofrestrwyd dau gynorthwyydd cymorth dysgu ar y cwrs Hyfforddiant Anogaeth pedwar diwrnod. Siaradodd y dirprwy a'r pennaeth â rhieni unigol am y ddarpariaeth newydd er mwyn sicrhau eu cydweithrediad. Mae'r grŵp anogaeth wedi cael effaith ar ymgysylltiad â theuluoedd 'anos eu cyrraedd' yn ogystal â chryfhau cysylltiadau ag asiantaethau eraill, fel y gwasanaethau cymdeithasol, Cafcass ac uned cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol. Mae gwerthuso manwl yn dangos bod rhaglen ymyrryd y grwpiau anogaeth yn dal yn llwyddiannus a'i bod yn galluogi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed i gael mynediad llawn at addysg er mwyn datgloi a chyflawni eu potensial yn llawn. Dyfarnwyd Marc Ansawdd Marjorie Boxall i'r ysgol yn 2009.

Gweler Astudiaeth Achos B am ragor o wybodaeth

Sefydlodd Ysgol Gynradd Pilgwenlli yng Nghasnewydd bedwar grŵp anogaeth yn yr ysgol mewn ymdrech i wella ymddygiad, presenoldeb, prydlondeb a'r berthynas â'r rhieni. Wrth i bob un o'r agweddau hyn wella, lleihawyd nifer y grwpiau yn yr ysgol. Dim ond un grŵp sy'n cael ei redeg yno erbyn hyn, ond maen nhw'n dal i fod â dau aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant mewn theori ac ymarfer grwpiau anogaeth.

Ysgol Gynradd Pilgwenlli yng Nghasnewydd

Mae Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn ysgol amlddiwylliannol, sy'n darparu ar gyfer anghenion unigol 650 o ddysgwyr 3-11 oed yng nghanol y ddinas. Mae wedi'i lleoli mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yng Nghasnewydd, ym Mlaenau Gwent lle mae rhai o'r wardiau amddifadedd isaf yng Nghymru. Mae egwyddorion craidd y 'Grŵp Anogaeth clasurol' wedi eu sefydlu yn yr ysgol ac maen nhw wedi galluogi'r ysgol i symud oddi wrth bryder ynglŷn ag ymddygiad dysgwyr a datblygu'n amgylchedd dysgu lle 'Rydym yn dysgu, chwarae a gweithio gyda'n gilydd' – a'r geiriau allweddol yw 'gyda'n gilydd'.

Drwy ddeialog â'r awdurdod lleol sefydlodd yr ysgol grŵp anogaeth Cyfnod Allweddol 1 sydd wedi cael ei redeg yn llwyddiannus bob blwyddyn er Ionawr 2004 ac sy'n cynnwys dau aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant mewn theori ac ymarfer grwpiau anogaeth a chynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn sydd hefyd wedi cael hyfforddiant mewn anogaeth. Sefydlwyd dau grŵp anogaeth Cyfnod Allweddol 2 dros dro am y 18 mis cyntaf. Dengys tystiolaeth bod y grŵp anogaeth wedi cynorthwyo plant i gyrraedd eu gwir berfformiad academaidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ac mae 'plant anogaeth' cyntaf 2004 bellach wedi mynd i'r ysgol uwchradd. Ym Mawrth 2009 dyfarnwyd Marc Ansawdd Marjorie Boxall i'r ysgol ac ym Mehefin y flwyddyn honno dyfarnodd Estyn fod y ddarpariaeth Anogaeth yn 'arbennig o dda'.

Gweler Astudiaeth Achos C am ragor o wybodaeth

Mae rhai ysgolion yn credu y dylai'r cwricwlwm gael ei gyflwyno bob amser gan y staff addysgu fel bod gwersi'n cael eu cyflwyno yn y dosbarth prif ffrwd, a'r dysgwyr yn mynd â'r gwaith i'r grŵp anogaeth i'w gwblhau cyn i weithgareddau anogaeth gael eu harwain yno gan ddau gynorthwyydd cymorth dysgu sy'n gymwys i'w cyflwyno a'u datblygu. Un ysgol o'r fath yw Ysgol Wdig yn Sir Benfro.

Ysgol Wdig

Ysgol Gymraeg yn Sir Benfro yw Ysgol Wdig ac mae'n cynnwys chwe dosbarth ar gyfer 133 o ddysgwyr 3-11 oed. Un o'r dosbarthiadau hyn yw'r Dosbarth Disglair, sef y Grŵp Anogaeth. Roedd yr ysgol yn gweld problemau ymddygiad difrifol a oedd yn rhoi ansawdd y dysgu a'r addysgu drwy'r ysgol gyfan yn y fantol. Cafodd yr ysgol arian drwy fenter Rhagori Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydlodd grŵp anogaeth i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Dynodwyd a hyfforddwyd dau aelod o'r staff ar unwaith, ac ailwampiwyd ystafell ddosbarth i fod yn Ystafell Anogaeth. Â chefnogaeth athro/athrawes ymgynghorol grwpiau anogaeth clustnodwyd plant ar gyfer y grŵp.

Mae'r ysgol yn credu ei bod yn hanfodol bod y gwaith cynllunio cwricwlaidd yn cael ei wneud gan yr athrawon dosbarth, felly ar ddechrau pob diwrnod mae pob plentyn yn mynychu'r dosbarth prif ffrwd i gofrestru a chael mewnbwn gan yr athro/athrawes ar gyfer sesiynau iaith a mathemateg. Mae staff y grŵp anogaeth wedyn yn rhannu'r tasgau'n ddarnau llai sydd o fewn cyrraedd pob disgybl. Mae'r grŵp anogaeth wedi cryfhau ac mae bellach yn rhan annatod o'r ysgol. Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i'r dulliau gweithredu cyson ar draws yr ysgol sydd wedi arwain yn y pen draw at well ymddygiad a safonau academaidd uwch, a chafwyd cydnabyddiaeth i'r gwaith yng Ngorffennaf 2009 pan ddyfarnwyd Dyfarniad Marjorie Boxall i'r ysgol.

Gweler Astudiaeth Achos D am ragor o wybodaeth

4.2 Grwpiau anogaeth Cyfnod Allweddol 3

Grwpiau anogaeth Cyfnod Allweddol 3 yw'r grwpiau anogaeth diweddaraf yn y wlad ac maen nhw'n cynnig cymorth drwy anogaeth mewn gwahanol ffyrdd.

- Cymorth pontio ar gyfer disgyblion sy'n cael eu nodi ym mlwyddyn 6.
- Cefnogi dysgwyr ar ddechrau'r diwrnod ac yn ystod adegau o'r diwrnod ysgol sydd heb eu strwythuro, megis amser cinio.
- Cynnig nifer o sesiynau cymorth, ond heb fod ar gael drwy gydol pob diwrnod ysgol.
- Dylai safle diogel wedi'i staffio fod ar gael drwy gydol y diwrnod, a dylid rhoi cymorth i unigolion a grwpiau yn y safle diogel ac mewn ystafelloedd dosbarth prif ffrwd.
- Rhan ganolog o becyn cymorth (gweler Atodiad 5 am ragor o fanylion).

Mae ymchwil wedi'i wneud yn ddiweddar i raglenni hyfforddi ac adnoddau sy'n darparu canllaw i staff uwchradd ac yn asesu pobl ifanc ar gyfer cymorth grŵp anogaeth. Trafodir y rhain mewn llawlyfr newydd, *The Boxall Profile for Young People*, a gyhoeddwyd mewn ymateb i'r diddordeb cynyddol mewn gwaith anogaeth yn ystod y cyfnod uwchradd ac ar ôl hynny (gweler hefyd 3.3 uchod).

Ysgol Gyfun Llangatwg

Mae'r Grŵp Anogaeth yn bodoli ers pedair blynedd. Cafodd ei sefydlu yn dilyn cydnabyddiaeth gyffredinol bod ar rai dysgwyr angen amser a chymorth penodol er mwyn datblygu eu sgiliau, eu profiad, eu hyder a'u hunan-barch. Y nod o hyd yw cael y dysgwyr yn ôl i addysg brif ffrwd am gymaint o amser ag sy'n bosibl, gyda'r sgiliau a'r cymhelliant angenrheidiol i ddatblygu eu gwybodaeth a gwneud y gorau o'u gallu i ddysgu. Mae'r ysgol yn gweithredu Grŵp Anogaeth ar gyfer blwyddyn 7 ac 8, pob un yn cynnwys 12-14 dysgwr. Y nod yw datblygu sgiliau cymdeithasol, gwella hunanhyder a hunan-barch ac, yn gyffredinol, helpu'r dysgwyr i bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r Grŵp hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglen weithgareddau awyr agored sydd wedi'i llunio'n benodol er mwyn datblygu cydweithrediad mewn tîm a sgiliau datblygu tîm yn ogystal â hyder a hunan-barch. Mae'r ysgol yn credu bod y rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Dewisir y dysgwyr drwy gysylltu ag athrawon blwyddyn 6 ac athrawon dosbarth yn gynnar ym mlwyddyn 7 gan ddefnyddio'r Proffil Boxall. Sefydlwyd uned cymorth i ddysgwyr hefyd fel parhad o'r grŵp anogaeth ac mae'n darparu ar gyfer dysgwyr o flwyddyn 7 i flwyddyn 11 ac yn cael ei rhedeg yn debyg iawn i Grŵp Anogaeth Clasurol. Yr unig agweddau a newidiwyd oedd yr ystafell, gan nad oedd yr ysgol yn awyddus iddi gael holl nodweddion lleoliad cynradd.

Gweler Astudiaeth Achos D am ragor o wybodaeth

Mae grŵp anogaeth CA3 arall yn cael ei redeg gan Ysgol Arbennig Mounton House yn Sir Fynwy, sy'n ysgol breswyl yn bennaf.

Grŵp Anogaeth Tŷ Seren yn Ysgol Arbennig Mounton House

Yn Nhŷ Seren, ysgol arbennig i fechgyn, mae'r grŵp anogaeth yn cael ei redeg ers hydref 2007. Roedd chwe dysgwr yn y grŵp i ddechrau ond erbyn hyn mae'n cynnwys 24. Roedd y staff addysgu wedi mynegi pryder ynglŷn ag ymddygiad amhriodol i oedran, a chafwyd trafodaethau gyda'r llywodraethwyr ynglŷn â sut i ddefnyddio'r cyllid Rhagori. Dewiswyd grŵp anogaeth fel y ffordd fwyaf effeithiol o wario'r arian. Mae ystafell fwyta'r ysgol wedi cael ei rhannu er mwyn cael lle i'r grŵp anogaeth. Mae'r grŵp yn cael ei redeg gan ddau gynorthwyydd addysgu ond y dirprwy sy'n bennaf gyfrifol amdano. Cafodd y Grŵp Anogaeth ei gynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol ar lefel costau staff ac ar lefel adnoddau. Mantais fawr cael Grŵp Anogaeth ar y safle yw bod yr ethos anogaeth yn treiddio drwy'r ysgol gyfan – mae'r staff yn dod yn fwy ymwybodol o deimladau'r dysgwyr ac mae'r dysgwyr yn dod yn fwy ymwybodol o deimladau'r staff.

Gweler Astudiaeth Achos F am ragor o wybodaeth

4.3 Grwpiau clwstwr

Mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau clwstwr sy'n dod â dysgwyr o lawer o ysgolion at ei gilydd i un ysgol anogaeth ganolog. Mae'r dysgwyr yn cael eu cludo mewn tacsis o'u cartrefi ben bore a'u cludo gartref mewn tacsi ar ddiwedd y dydd. Maen nhw'n treulio un diwrnod yr wythnos yn eu hysgol brif ffrwd ac mae staff y grŵp anogaeth yn ymweld â'u hysgol arferol i sicrhau bod targedau a gwelliannau'n cael eu cytuno a phroses ailsefydlu sy'n dderbyniol i bawb yn cael ei sefydlu.

Yr anhawster mwyaf y mae'n rhaid ei osgoi â'r math hwn o grŵp anogaeth yw mai dim ond y disgyblion sy'n tynnu'n groes sy'n cael eu cyfeirio, ac mae'n bosibl i'r grwpiau gael eu gweld fel unedau cyfeirio disgyblion. Nid yw hynny'n wir yn achos rhai grwpiau anogaeth clwstwr sydd hefyd wedi derbyn dysgwyr â mudandod dethol a dysgwyr sydd wedi mynd i'w cragen yn ddifrifol. Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn cadw mewn cysylltiad â'u hysgolion prif ffrwd. Mae cadw mewn cysylltiad â rhieni yn amlwg yn anos a gellir colli 'perchnogaeth' o'r dysgwyr hefyd.

Ynysddu

Mae gan ysgol Ynysddu ddau grŵp anogaeth, un ar gyfer plant derbyn/blwyddyn 1 a dosbarth Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Blynyddoedd 3 a 4. Mae'r dosbarth yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol ac mae'n cymryd hyd at wyth plentyn am bedwar diwrnod yr wythnos. Ar ddydd Mercher mae'r plant yn dychwelyd i'w hysgol arferol ac mae staff y Grŵp Anogaeth yn ymweld â'r ysgolion. Sefydlwyd y dosbarth bum mlynedd yn ôl fel rhan o brosiect peilot yng Nghaerffili. Mae'r broses ddewis yr un fath ar y cyfan â'r broses ddewis ar gyfer grwpiau anogaeth arferol, lle cynhelir panel cyn dewis y plant ar sail blaenoriaeth. Bydd aelod o'r staff yn ymweld â'r ysgol ac yn cynnal yr asesiad Proffil Boxall ac yn arsylwi ar y plentyn yn yr ysgol arferol. Yn dilyn hynny cynhyrchir adroddiad i'r panel a thrafodir pob plentyn yn unigol.

Credir ei bod yn bwysig ystyried cydbwysedd y grŵp bob amser. Bydd angen i unrhyw awdurdodau sy'n sefydlu grwpiau anogaeth yn y modd hwn godi ymwybyddiaeth yn y clwstwr o'r hyn yw darpariaeth Anogaeth a phwysleisio mai partneriaeth ydyw. Cynhaliodd Ynysddu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i benaethiaid yn rhanbarth Islwyn ac i Gydgysylltwyr AAA drwy'r fforwm Cydgysylltwyr AAA. Lluniasant hefyd daflenni gwybodaeth a llawlyfrau i ysgolion eu defnyddio wrth siarad â rhieni am gyfeiriad posibl at Anogaeth. Mae'r sesiynau codi ymwybyddiaeth yn fater y mae angen ailedrych arno o bryd i'w gilydd oherwydd newidiadau i staff ysgolion. Mae diwrnodau agored a Diwrnodau Aros a Chwarae yn rhoi cyfle i athrawon weld y plant yn y lleoliad anogaeth ac i rieni weld staff o'r ddwy ysgol – hybu partneriaeth yn natblygiad eu plentyn.

Gweler Astudiaeth Achos G am ragor o wybodaeth

Ysgol Glancegin

Mae grwpiau anogaeth yn gymharol newydd i Wynedd ac ychydig iawn o ysgolion y sir sy'n ymwybodol ohonyn nhw. Ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, a thrwy gyllid Rhagori, bu modd sefydlu grŵp clwstwr o ysgolion er mwyn cyflwyno'r cysyniad o anogaeth yn Hydref 2009. Ysgol Gynradd Glancegin, sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yw'r ysgol arweiniol yn y prosiect hwn, a hi yw'r unig ysgol lle mae ystafell anogaeth wedi'i sefydlu. Mae'r ysgol yn tyfu, ac ar hyn o bryd mae ganddi 200 o blant sy'n dod o ystâd dai cyngor Maesgeirchen ar gyrion Bangor. Mae dysgwyr yn yr ysgolion eraill, ysgol uwchradd, ysgol gynradd fwydo ac ysgol fabanod, yn rhannu cynorthwyydd addysgu i ddarparu gweithgareddau anogaeth.

Gweler Astudiaeth Achos H am ragor o wybodaeth

4.4 Persbectif awdurdodau lleol

Ar lefel awdurdodau lleol, aeth Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot ati yn ddiweddar i werthuso ei grwpiau anogaeth a daeth i'r casgliad eu bod yn cael effaith ar ddysgwyr unigol ac ar welliannau ysgol gyfan.

Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot

Ers agor ei grŵp anogaeth cyntaf yn 2005, mae Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud cynnydd mawr â'r gwaith o ddod ag anogaeth i'w ysgolion. Hyd yn hyn mae mwy nag 80 o staff wedi mynychu cwrs hyfforddiant pedwar diwrnod y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth. Ceir tystiolaeth gynyddol o fanteision uniongyrchol grwpiau anogaeth i ddysgwyr, rhieni ac ysgolion, o ran yr effaith ar ddysgwyr unigol a hefyd gan eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at welliannau ysgol gyfan. Roedd tystiolaeth o welliant sylweddol yn y berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni a rhwng y staff a'r dysgwyr, presenoldeb uwch, awyrgylch gwahanol gyda gwell cyfathrebu ymhlith staff sydd wedi datblygu gwell dealltwriaeth o blant sydd ag anawsterau.

Mae dysgwyr wedi dangos mwy o hyder a hunan-barch a gwell sgiliau cymdeithasol a sgiliau llythrennedd. Mae ymddygiad tuag at oedolion a dysgwyr eraill wedi gwella ac mae nifer y gwaharddiadau wedi gostwng ynghyd â nifer y dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio i gael darpariaeth arbenigol. Ym Medi 2009, cafodd 19 o staff eu hyfforddi i fod yn rhan o system Hyfforddi Hyfforddwyr y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth ac mae grwpiau anogaeth yn yr Awdurdod erbyn hyn yn gweithio gyda 300 o blant. Roedd y penaethiaid yn cytuno y dylid defnyddio grant Rhagori Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr Awdurdod i hybu a datblygu grwpiau anogaeth. Mae datblygu grwpiau anogaeth wedi cael cymaint o effaith fel bod llawer o ysgolion o awdurdodau eraill wedi bod yn awyddus i ymweld â Chastell-nedd Port Talbot a dysgu o brofiadau'r awdurdod lleol.

Gweler Astudiaeth Achos I am ragor o wybodaeth

5. Cyd-fynd â strategaethau/polisïau

Mae grwpiau anogaeth yn cyd-fynd â nifer o bolisïau addysgol presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, a'r Cynllun Gweithredu dilynol sy'n ceisio nodi arferion effeithiol wrth hybu ymddygiad cadarnhaol, a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, sy'n hybu diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a phersonoli dysgu, sy'n nodweddion allweddol o'r grŵp anogaeth. Mae grwpiau anogaeth yn canolbwyntio ar les personol, cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr ac mae ganddyn nhw gydberthynas dda â sawl agwedd ar y Cyfnod Sylfaen, e.e. y rhai hynny sy'n ymwneud â hunan-barch plant a ffurfio perthynas.

Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb)

Tasg yr Adolygiad oedd edrych sut y gellir rhoi cefnogaeth fwy effeithiol i rieni, plant a phobl ifanc a'r gymuned gyfan a'u cael i ymgysylltu ag ystod o dasgau penodol. Roedd y rhain yn cynnwys hybu ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol yn yr ysgol a nodi arferion effeithiol wrth hybu ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb cadarnhaol.

Perthnasedd i grwpiau anogaeth:

Roedd yr adroddiad ar yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, a gyhoeddwyd ym Mai 2008, yn cynnwys 19 o argymhellion craidd a 73 o argymhellion ategol. Mae argymhelliad craidd 2 yn berthnasol iawn –

> *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru flaenoriaethu strategaethau ymyrraeth gynnar ar waith gyda phroblemau'n ymwneud â phresenoldeb ac yn ymwneud ag ymddygiad ymhlith plant a phobl ifanc.*

Mae'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn ceisio sefydlu prosesau newydd i wella'r dull o hybu ymddygiad cadarnhaol. Cam Gweithredu 4 ar gyfer yr argymhelliad hwn yw'r Prosiect Grwpiau Anogaeth sy'n ceisio asesu gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar hyn o bryd gan ganolbwyntio'n benodol ar Gyfnod Allweddol 3 fel sail i waith yn y dyfodol yn y maes hwn*'.*

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn amlinellu dull gweithredu ar dair lefel er mwyn gwella effeithiolrwydd ysgolion drwy gydweithio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion. Yr hyn sydd wrth graidd y Fframwaith yw Gwella Dysgu a Lles Plant a Phobl Ifanc.

Perthnasedd i grwpiau anogaeth:

Fel rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid wedi datblygu datganiad o ddiben cenedlaethol ar gyfer ysgolion. Mae dwy elfen ohono'n disgrifio diben ysgolion fel:

- galluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu'i botensial yn llawn drwy feithrin sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion sy'n weithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol, ac yn ddysgwyr gydol oes; a
- hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, yn fwyaf arbennig drwy ddatblygu lles dysgwyr a theilwra'r dysgu i'r unigolyn.

Mae sefydlu diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a theilwra'r dysgu i'r unigolyn yn nodweddion allweddol i'r grŵp anogaeth ac mae'n amlwg bod y potensial ganddyn nhw i gyfrannu at yr agenda hon.

Rhagori (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol mewn Addysg)

Mae rhaglen Rhagori Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais gymdeithasol-economaidd a thangyflawniad addysgol dysgwyr. Un o flaenoriaethau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod canlyniadau'r rhaglen Rhagori'n cael lle blaenllaw wrth ddatblygu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, fel ei bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol i oblygiadau tlodi mewn addysg.

Perthnasedd i grwpiau anogaeth:

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae ysgolion sy'n cael cyllid Rhagori wedi bod yn rhoi mwy o sylw i ddatblygiad sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Mae nifer o'r ysgolion sy'n cael cyllid Rhagori wedi defnyddio'u cyllid i gefnogi grwpiau anogaeth. Erbyn hyn mae casgliad cynyddol o ddeunyddiau ac astudiaethau achos yn gysylltiedig â Rhagori, gan gynnwys astudiaethau achos o lwyddiant ysgolion wrth ddatblygu grwpiau anogaeth. Mae dwy astudiaeth achos i'w gweld yma:

http://www.raise-wales.org.uk/cym/raise/raise-resources.htm?region=all&resid=4.

Atodiad 1: Astudiaethau Achos

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion am y grwpiau anogaeth isod:

a. Ysgol Gymuned y Gors, Abertawe;
b. Ysgol Babanod a Meithrin Gorseinon;
c. Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Casnewydd;
ch. Ysgol Gynradd Wdig, Sir Benfro;
d. Ysgol Gymunedol Llangatwg;
dd. Grŵp Anogaeth Tŷ Seren yn Ysgol Arbennig Mounton House;
e. Ysgol Gynradd Ynysddu;
f. Ysgol Glancegin;
ff. Castell-nedd Port Talbot.

Astudiaeth Achos A
Ysgol Gymuned y Gors, Abertawe

Ysgrifennwyd gan Keith Atkins, Pennaeth.

Mae Llywodraethau olynol wedi mynnu mai'r ffordd o wella cymdeithas a chymunedau yng Nghymru, ac yn ehangach yn y Deyrnas Unedig, yw drwy Addysg. Cafwyd llawer o ymatebion i hyn - rhai'n rhoi "mwy o'r un fath", eraill yn treialu prosiectau neu gynnyrch sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar y newid rydym yn anelu tuag ato, a rhai'n cael effaith fawr iawn ac yn newid plant a theuluoedd.

Os ydych yn rhiant, byddwch yn gwybod yn iawn beth mae'r newidiadau hyn yn ceisio'i gyflawni, oherwydd fel rhieni rydym yn ceisio arwain ein plant i'r cyfeiriadau hyn. Mae'r newidiadau sydd eu hangen yn amrywio o fwy o lwyddiant academaidd, gyda phlant hapus a'r sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes, i'r sgiliau cynilach a llai amlwg sydd eu hangen er mwyn gallu ffurfio cyfeillgarwch a pherthynas briodol â phobl ifanc hyderus â seiliau emosiynol cadarn.

Mae Ysgol Gymuned y Gors ar ochr ogleddol ystâd dai cymdeithasol fawr yn Abertawe, ystâd sydd â phocedi o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd difrifol. Deuthum yn bennaeth yr Ysgol Gymuned gyfunol newydd tua deng mlynedd yn ôl, a chyn hynny roeddwn wedi bod yn bennaeth Ysgol Iau am tua deng mlynedd. Ugain mlynedd yn ôl roedd yr ysgol yn lle heriol ac anodd i addysgu ynddo, gydag

ymddygiad ac agweddau heriol dysgwyr ym mhob dosbarth yn amharu'n ddifrifol ar y dysgu, a'r athrawon yn defnyddio'u hegni i reoli'r dosbarth yn hytrach na darparu addysg o safon.

Ar ôl llawer iawn o waith yn ymwneud â rheoli ymddygiad cadarnhaol a pholisïau a dulliau gweithredu ysgol-gyfan, gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ym maes gwella ymddygiad. Er hyn, roedd llawer o ddysgwyr ar y cyrion heb wneud unrhyw gynnydd o gwbl ac roedd dadrithiad cynnar yn amlwg yn eu hagwedd at waith. Awgrymodd Cadeirydd y Llywodraethwyr ar y pryd wrthyf, yn ddoeth iawn, bod angen i ni "roi trefn ar y dryswch yn eu meddyliau" er mwyn iddyn nhw allu gweithio'n iawn. Yr unig broblem oedd "SUT?"

Tua'r adeg yma, tua un ar ddeg neu ddeuddeng mlynedd yn ôl y clywais am Grwpiau Anogaeth. Dechreuon ni wrth edrych ar arferion da mewn grwpiau o'r fath yn Llundain. Gwelsom eu gwerth a'u potensial ar unwaith, ac o hynny 'mlaen roedden ni wedi ymrwymo iddyn nhw. Cafodd pedwar aelod o'r staff, gan gynnwys y dirprwy a minnau, ein hyfforddi yn Sefydliad Addysg Llundain. Gwariwyd arian i sefydlu Ystafell Anogaeth, cawsom hyfforddiant i'r staff cyfan (gan gynnwys ymweliad ysbrydoledig gan Marion Bennathan, un o brif ddatblygwyr Grwpiau Anogaeth) ac aethom ati i siarad â'r rhieni a'r Llywodraethwyr, a dewis dysgwyr ar gyfer ein grwpiau cyntaf - Cyfnod Allweddol 1 a'r Blynyddoedd Cynnar yn y bore, a Cyfnod Allweddol 2 yn y prynhawn – Grŵp Anogaeth clasurol rhan-amser yn cael ei redeg gan athro/athrawes a chynorthwyydd addysgu.

Rydym wedi dod yn bell iawn ers hynny. Mae'r ysgol yn lle gwahanol i weithio ynddi a chael mwynhad, mae'r plant wedi addasu'n dda ac yn hapus, mae gan y dysgwyr a oedd yn arfer bod yn fewnblyg ansawdd bywyd llawer gwell – maen nhw'n fwy rhadlon a hyderus – ac mae'r dysgwyr a oedd yn tynnu'n groes yn dal yn gymeriadau direidus iawn, ond yn gwneud gwell penderfyniadau ynglŷn â'u hymddygiad, ac unwaith eto'n teimlo'n hyderus, yn werthfawr ac yn hapus yn yr ysgol. Rydym yn gwneud proffil o ymddygiad y plant i gyd pob blwyddyn gan ddefnyddio'r Proffil Boxall, ac yn dewis dysgwyr i'r Grŵp Anogaeth ar sail y proffil hwn. Mae proffilio'r ysgol gyfan yn cynnig llawer o fanteision. Nid yw'n cymryd gormod o amser, ond mae'n sicrhau bod gennym wybodaeth dda am yr agweddau hyn ar y plant. Mae hefyd yn creu darlun o ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn dros gyfnod, sy'n wybodaeth werthfawr i'w rhannu gyda rhieni ac i'w defnyddio ein hunain! Yn bennaf oll, fodd bynnag, mae'n sicrhau bod y dysgwyr hynny a fyddai'n cael budd o gyfnod yn ein Grŵp Anogaeth yn cael eu canfod yn gynnar, ac ymyriad cynnar yw'r ymyriad mwyaf effeithiol.

Erbyn hyn mae'n grŵp anogaeth yn agwedd sydd wedi hen sefydlu'i hun mewn ysgol lwyddiannus iawn. Mae'n cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, ond ar gyfer dysgwyr yr ysgol hon yn unig, ac yn cael ei staffio gan athro/athrawes a chynorthwyydd cymorth dysgu sydd wedi cael eu hyfforddi gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth. Nid oes angen grŵp Cyfnod Allweddol 2 erbyn hyn gan fod y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn y blynyddoedd cynnar a Cyfnod Allweddol 1 wedi bod yn llwyddiannus. Er hyn, mae rhai sesiynau "cwnsela" yn cael eu cynnwys er mwyn diwallu anghenion Cyfnod Allweddol 2. Mae'r plant yn dod allan am lai o amser bob wythnos, ond mae'r mecanweithiau cefnogi yn dal ar gael ar gyfer y dysgwyr hyn.

Mae gwaith y Grŵp Anogaeth wedi newid cymeriad yr ysgol, naws y dosbarthiadau a'r profiad cyfan y mae'n dysgwyr yn ei gael yn y Gors. Mae'n debyg mai'r adborth mwyaf dramatig rydw i wedi ei gael yw'r un gan yr Heddlu Cymunedol lleol, sydd wedi awgrymu bod cydberthynas uniongyrchol rhwng ein gwaith Anogaeth ni a gwella agweddau ac ymddygiad yn y gymuned leol, ymhlith plant, ac yn y gymuned gyfan hefyd!

Yn fyr, mae cyflwyno Proffiliau Boxall a Grwpiau Anogaeth yn yr ysgol hon wedi galluogi plant i fod yn barod yn emosiynol ac yn gymdeithasol ar gyfer eu gwaith academaidd yn yr ystafell ddosbarth. Mae wedi arwain at welliant mawr yn ansawdd bywyd y rhai sydd wedi mynychu'r Grŵp Anogaeth a'u teuluoedd, ond yn fwyaf dramatig, mae wedi gwneud y math o wahaniaeth yn y gymuned leol a fydd cael effaith ar y gymdeithas yn y dyfodol.

Manylion cyswllt

Keith Atkins MBE
Pennaeth
Ysgol Gymuned y Gors

Ffôn: 01792 522 202
E-bost: Gors.community.school@swansea-edunet.gov.uk

Astudiaeth Achos B
Ysgol Babanod Gorseinon

Ysgrifennwyd gan Ysgol Babanod Gorseinon.

Cefndir y prosiect

Mae gan Ysgol Babanod Gorseinon ychydig dros 200 o ddysgwyr ac mae mewn ardal sydd â nifer fawr o broblemau cymdeithasol, gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chyfraddau cam-drin yn y cartref uchel. Mae llawer o'n rhieni'n sengl ac mae 31% o'n plant yn cael cinio ysgol am ddim. Mae 57 o'r plant yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae oedi yn natblygiad iaith a lleferydd llawer o'n dysgwyr pan maen nhw'n dod i'r ysgol ac mae gan lawer ohonyn nhw sgiliau cymdeithasol gwael.

Oherwydd y cefndir hwn roeddwn yn poeni'n fawr iawn am lawer o'r plant ifanc a oedd yn fy ngofal. Maen nhw wedi gweld llawer o ddigwyddiadau anodd a thrallodus yn eu cartrefi. Roedd llawer o blant yn arfer cael anhawster i setlo yn yr ysgol, ac yn dangos arwyddion cynnar anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a methu â chyflawni mewn sawl maes cwricwlaidd. Gallai'r rhwystrau sy'n atal dysgu cynnar yn yr ysgol gael effeithiau hirdymor difrifol ar gyflawniad ac roeddem yn awyddus i fabwysiadu rhaglen ymyriadau cynnar er mwyn darparu cefnogaeth i'r plant hyn yn yr ysgol a'u galluogi i gyflawni eu potensial.

Roedd rhai o'r plant hyn oedd â sgiliau cymdeithasol ac ieithyddol llai datblygedig yn gweld dysgu prif ffrwd yn anodd ac nid oedden nhw bob amser yn barod i fodloni

gofynion cymdeithasol a deallusol ysgol o ganlyniad i ddiffyg anogaeth gynnar. Yn gyffredinol, nid oedd ganddyn nhw lawer o hunan-barch na hunanhyder.

Arloesi

Â'r wybodaeth hon aethom ati i sefydlu grŵp anogaeth yn yr ysgol. Gwyddem fod anogaeth mewn amgylchedd ysgol wedi bod yn llwyddiannus mewn llawer o sefyllfaoedd eraill a theimlem y byddai grŵp anogaeth yn ein galluogi i dargedu'r plant hynny nad ydynt bob amser yn gymwys i gael arian anghenion arbennig ac eto sydd ag 'anghenion' penodol. Roeddem yn gymwys i gael cyllid Rhagori a phenderfynasom y byddem yn defnyddio'r arian i sefydlu ein grŵp anogaeth ein hunain.

Sefydlu'r grŵp anogaeth

Roedd gennym ddwy brif dasg. Hyfforddi staff oedd un, a'r llall oedd dod o hyd i le addas yn yr ysgol i sefydlu'r ystafell anogaeth. Defnyddiwyd arian y rhaglen Rhagori i dalu am y gwaith ffisegol o baratoi'r ystafell, y dodrefn, yr adnoddau a'r cyfarpar yn ogystal â chost dau gynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser i redeg y grŵp.

Mae ystafell y grŵp anogaeth wedi'i chynllunio er mwyn rhoi sicrwydd i'r dysgwyr a chreu naws anffurfiol.

Cawsom ychydig dros £11,000 o arian Rhagori a thalodd hyn am ddau gynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser. Sefydlwyd y grŵp anogaeth i ddechrau mewn ystafell adnoddau nad oedd yn cael ei defnyddio lawer, ond ar ôl gwerthuso adeilad cyfan yr ysgol penderfynodd y staff i gyd yn unfrydol y dylid symud llyfrgell fawr yr ysgol i le llai a defnyddio hen ystafell y llyfrgell fel yr ystafell anogaeth newydd. Cofrestrwyd y ddau gynorthwyydd cymorth dysgu ar y cwrs Hyfforddiant Anogaeth 4 diwrnod ac roeddwn yn ffodus bod fy nirprwy nid yn unig wedi dilyn yr hyfforddiant ei hun flynyddoedd lawer yn gynharach ond hefyd yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr iawn am anogaeth, gan mai hi sefydlodd y grŵp anogaeth cyntaf yng Nghymru. O ganlyniad, roeddem yn gallu dechrau ar ein gwaith o fonitro dysgwyr yn fuan iawn.

Y cam nesaf oedd cynnwys y rhieni. Siaradodd y dirprwy a'r pennaeth â rhieni unigol am y ddarpariaeth newydd roeddem yn awyddus i'w chynnig i'w plant, ac roedd pawb yn gefnogol iawn. Roedd yn bwysig iawn cael cydweithrediad rhieni gan fod gennym gynlluniau i'w cael i ymwneud cryn dipyn â'r grŵp anogaeth drwy weithgareddau amrywiol.

Mae'r grŵp anogaeth wedi cael effaith ar ein hymgysylltiad â rhai teuluoedd 'anos eu cyrraedd' yn yr ysgol, yn ogystal â chryfhau ein cysylltiadau ag asiantaethau eraill. Rydym wedi agor ein drysau i rieni'n plant anogaeth a'u hannog nid yn unig i ddod i'r ysgol am hanner diwrnod ddwywaith y tymor i 'aros a chwarae', ond i fynd gyda'r staff a'r plant ar dripiau siopa lleol, i ymuno â'r plant mewn dosbarthiadau coginio ac i ddod i'n dosbarthiadau Dysgu fel Teulu y rhan fwyaf o'r wythnosau.

Mae wedi bod yn bwysig fel ffordd o ymgysylltu â rhai o'r rhieni hyn na fyddai wedi ymwneud prin ddim â'r ysgol cyn i'w plentyn ddod i'r grŵp anogaeth.

Marc Ansawdd Marjorie Boxall

Yn ychwanegol at holl lwyddiannau'r grŵp anogaeth cawsom ein hasesu yn 2009 ar gyfer Marc Ansawdd Boxall ac roeddem yn falch iawn pan gawsom y dyfarniad.

Mae'r grŵp anogaeth hefyd wedi'n galluogi i gryfhau cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol eraill sydd i gyd yn canmol y ddarpariaeth y mae'r cyfleuster hwn yn gallu ei gynnig i'n plant mwyaf difreintiedig. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Cafcass ac uned cymorth ymddygiad yr Awdurdod Lleol wedi ymwneud â'r plant neu eu teuluoedd, ac mae'r ymdrech hon gan y tîm cyfan wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y plant.

Cynhelir cyfarfodydd proffesiynol unwaith y mis yn yr ysgol, ac maen nhw'n cynnwys y staff anogaeth, yr athro/athrawes dosbarth, y cydgysylltydd anghenion addysg arbennig, y dirprwy a'r pennaeth . Rhennir arsylwadau a gwybodaeth am gynnydd gan y staff i gyd yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r monitro agos hwn yn cadarnhau ein barn bod y rhaglen anogaeth sy'n seiliedig ar ymyriadau yn llwyddiannus o hyd. Yn anffodus mae'r arian Rhagori wedi dod i ben, ond drwy gefnogaeth y

Corff Llywodraethu rydym wedi llwyddo i ddal ati drwy roi arian o'r neilltu yn ein cyllideb i barhau â'r grŵp. Rydym wedi amcangyfrif y gallwn barhau am y tair blynedd nesaf. Byddem yn hoffi gweld y ddarpariaeth yn parhau'n amhenodol, ond rhaid i ni fod yn realistig a sylweddoli mai dim ond tra byddwn yn gallu ei fforddio y bydd yn parhau. Am y tair blynedd diwethaf rydym wedi llwyddo i ymestyn y ddarpariaeth i fod yn un amser llawn, gyda phlant y dosbarth derbyn yn mynychu'r grŵp yn y bore a blwyddyn 1 a 2 yn y prynhawn.

Mae'r broses ddewis wedi dangos ei bod yn wirioneddol bwysig bod staff yn ymwybodol o gefndir cymdeithasol eu dysgwyr. Gellir cynnal ymyriadau cadarnhaol wedyn. Credwn yn gryf fod ein grŵp anogaeth yn cefnogi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed ac yn eu galluogi i gael mynediad llawn at addysg er mwyn datgloi a chyflawni eu potensial yn llawn.

Manylion cyswllt

Ysgol Babanod a Meithrin Gorseinon
Stryd Fawr
Gorseinon
Abertawe
SA4 4BN

Ffôn: 01792 892739
E-bost: gorseinon.infantschool@swansea-edunet.gov.uk

Astudiaeth Achos C
Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Casnewydd

Ysgrifennwyd gan Karen Green, Arweinydd Anogaeth, Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Casnewydd.

CYFLAWNIAD Y GRŴP ANOGAETH yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli

Ein hysgol

- Mae Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn ysgol amlddiwylliannol yng nghanol dinas ac yn darparu ar gyfer anghenion unigol 650 o blant 3-11 oed.

- Mae wedi'i lleoli mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yng Nghasnewydd, yng Ngwent lle mae rhai o'r wardiau amddifadedd uchaf yng Nghymru.
- Mae egwyddorion craidd y 'Grŵp Anogaeth clasurol' yn rhan ganolog o'n hysgol. Mae'r egwyddorion hyn wedi'n galluogi i symud oddi wrth bryderon ynglŷn ag ymddygiad dysgwyr chwe blynedd yn ôl a datblygu amgylchedd dysgu lle 'Rydym yn dysgu, chwarae a gweithio gyda'n gilydd' – a'r geiriau allweddol yw 'gyda'n gilydd.
- Drwy ddeialog â'r Awdurdod Lleol sefydlodd yr ysgol Grŵp Anogaeth Cyfnod Allweddol 1 sydd wedi bod yn cael ei redeg yn llwyddiannus er Ionawr 2004. Sefydlwyd dau grŵp anogaeth Cyfnod Allweddol 2 hefyd dros dro am y 18 mis cyntaf.
- Ym Mawrth 2009 dyfarnwyd Marc Ansawdd Marjorie Boxall i ni ac ym Mehefin y flwyddyn honno dyfarnodd ESTYN bod ein darpariaeth Anogaeth yn 'arbennig o dda'.
- Credwn ym mhwysigrwydd ymyriad cynnar!

Rydym yn rhedeg Grŵp Anogaeth Cyfnod Allweddol 1 ar hyn o bryd. Mae 'Dosbarth yr Enfys' – fel mae'n cael ei alw - ar agor 4½ diwrnod yr wythnos, o 9a.m. tan 2.30p.m. Cefnogir y plant am 2-6 tymor gan ddau athro sydd wedi cael hyfforddiant Anogaeth ac sy'n 'rhannu' y rôl o reoli'r plant sydd rwng 4 a 7 oed, a chynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn (sydd hefyd wedi cael hyfforddiant Anogaeth).

Cyflawniadau

- Mae 'plant anogaeth' cyntaf 2004 wedi symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd erbyn hyn.
- Rydym yn dal i gadw llygad ar ein 'plant anogaeth' Cyfnod Allweddol 2 wrth iddyn nhw dyfu a datblygu, ac rydym wedi 'bod yno iddyn nhw' mewn cyfnodau anodd a chyfnodau hapusach, yn monitro eu datblygiad cymdeithasol/emosiynol a'u cynnydd academaidd yn ofalus.
- Mae rhai o'n plant anogaeth wedi cymryd mwy o amser na'i gilydd i ffurfio perthynas yn hyderus ond bellach, ar ôl ffurfio'r perthnasau hyn, mae'r plant yn ei chael hi'n haws i wneud y penderfyniadau iawn ac maen nhw'n dangos diddordeb yn eu dysgu academaidd. Mae hyn wedi galluogi'r plant i ddatblygu hunan-barch a hyder i wneud rhagor o gynnydd.
- Anogir rhieni i chwarae rhan ganolog yn y broses o gefnogi eu plentyn; maen nhw'n fwy parod i wrando, dysgu a deall natur gymhleth eu plant.
- Credwn y byddai rhai o'r plant sydd yn y grŵp hwn wedi gweld bywyd ysgol yn anodd iawn ar adegau oni bai am y sicrwydd o wybod ein bod ni wedi bod yno iddyn nhw bob amser, i wrando arnyn nhw ac i drafod eu problemau.

Dyma beth sydd wedi bod yn flaenoriaeth i ni – galluogi'n plant i ffurfio cysylltiadau â phobl eraill, i wneud y dewisiadau iawn ac i ddeall pam y maen nhw'n gwneud y dewisiadau hyn – i fod yn wydn ac yn adfyfyriol.

Fel ysgol rydym yn dal yn optimistaidd ynglŷn â chyflawniad plant ein Grŵp Anogaeth. Mae tystiolaeth gynnar yn dangos bod Anogaeth fel rhaglen ymyriadau cynnar yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu gwir berfformiad academaidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

I ni fel ysgol, yn ystod yr hinsawdd economaidd bresennol y rhaglen Anogaeth fydd y rhaglen ymyriadau olaf y bydd yr ysgol hon yn ei cholli.

Manylion cyswllt

Karen Green, Arweinydd Anogaeth

E-bost: pillgwenlly.primary@newport.gov.uk

Astudiaeth Achos D
Ysgol Gynradd Wdig

Ysgrifennwyd gan Mari Brame, Pennaeth, Ysgol Wdig.

Cefndir

Ysgol gynradd Gymraeg yn Sir Benfro yw Ysgol Wdig. Mae'n cynnwys chwe dosbarth, ac un o'r rhain yw'r Dosbarth Disglair, y Grŵp Anogaeth, ar gyfer y 133 o ddysgwyr 3-11 oed. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dod o ystâd dai cyngor fawr neu o ffermydd a thai gwasgaredig yn yr ardal wledig gyfagos. Mae llawer o ddiweithdra yn yr ardal. Ar y cyfan, mae'r rhieni'n gefnogol iawn ac mae staff yr ysgol yn adnabod pob un o'r dysgwyr a'u teuluoedd.

Sut y sefydlwyd y grŵp anogaeth

Ar ddechrau fy nghyfnod fel Pennaeth Ysgol Wdig ym Medi 2005, roeddwn i'n wynebu problemau ymddygiad difrifol a oedd yn amharu'n fawr ar ansawdd y dysgu a'r addysgu yn yr ysgol gyfan. Roedd grŵp bach o blant, ym Mlynyddoedd 3 a 4 ar y pryd, yn ymddwyn yn ddrwg ac, o ganlyniad, yn amharu ar fywydau plant eraill yn eu dosbarth. Gan fy mod wedi mynychu cynhadledd ragarweiniol am grwpiau anogaeth yn ystod y flwyddyn honno, ac wedi cael clywed yn ddiweddarach bod yr ysgol yn mynd i gael arian Rhagori (menter Llywodraeth Cynulliad Cymru - Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion), yr ateb amlwg oedd sefydlu grŵp anogaeth.

Aethpwyd ati ar unwaith i ddynodi a hyfforddi dau aelod o'r staff. Daeth ystafell ddosbarth yn wag a chafodd ei hailddodrefnu'n addas. Â chefnogaeth athro ymgynghorol grwpiau anogaeth dechreuodd y plant yn y grŵp anogaeth, a alwyd gennym yn Ddosbarth Disglair, ym Medi 2006.

Cysylltu anogaeth â'r cwricwlwm

Mae'r staff yn teimlo ei bod yn hanfodol bod y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn cael ei wneud gan yr athrawon dosbarth, felly ar ddechrau pob diwrnod mae'r plant yn mynychu'r dosbarth prif ffrwd i gofrestru a chael mewnbwn gan yr athro ar gyfer sesiynau Iaith a Mathemateg. Mae staff y grŵp anogaeth wedyn yn rhannu'r tasgau'n ddarnau llai sydd o fewn cyrraedd pob dysgwr. Maen nhw'n mynd i'r Dosbarth Disglair i gwblhau tasgau cyn cymryd rhan mewn Amser Cylch a strategaethau eraill i gefnogi eu hanghenion.

Effaith y grŵp anogaeth

Cafodd y grŵp effaith ar unwaith. Cawsom rai sylwadau cychwynnol gan rieni, fel, 'Felly os ydych chi'n ddrwg yn yr ysgol hon rydych chi'n cael darn o dost a phaned o de.' Ond dim ond am ryw bythefnos y parhaodd yr agwedd honno. Chwe wythnos yn ddiweddarach, cafodd Ysgol Wdig arolwg gan ESTYN a chafodd y Dosbarth Disglair newydd y sylwadau isod, 'Rhoddir cefnogaeth dda i ddisgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiad gormesol. Un o gryfderau'r ysgol yw'r amgylchedd o ofal yn y grŵp anogaeth'.

Agwedd ysgol gyfan at anogaeth

Mae'r grŵp anogaeth wedi mynd o nerth i nerth ac mae bellach yn rhan annatod o'r ysgol. Rydym yn dal i ddynodi plant sydd angen anogaeth am resymau amrywiol. Mae'r grŵp yn hafan ddiogel, ac mae plant eraill yn yr ysgol yn canfod eu ffordd yno i gael cysur. Rydym ninnau'r staff yn hoffi ymgynnull yno ambell waith hefyd!

Er mwyn sicrhau bod y plant i gyd yn gallu manteisio ar egwyddorion anogaeth, ym Medi 2008 lansiwyd y rhaglen Addysg Gwerthoedd. Cyflwynir y plant i werth gwahanol bob mis. Mae staff y grŵp anogaeth yn dilyn y rhaglen ynghyd â holl staff eraill yr ysgol. Gyda hyfforddiant staff mewn egwyddorion anogaeth hefyd mae hyn wedi arwain at ddull gweithredu cyson ar draws yr ysgol ac, yn y pen draw, at well ymddygiad a chodi safonau academaidd.

Rydym wedi agor ein drysau i lawer o ymwelwyr. Mae plant, aelodau o'r staff, llywodraethwyr, a'r gymuned yn dod i mewn yn rheolaidd i gael brecwast gyda'r grŵp anogaeth. Mae wedi bod yn bleser rhannu arferion da ag ysgolion eraill sir Benfro ac ysgolion o awdurdodau eraill.

Cael Dyfarniad Boxall yn 2009

Roeddem yn falch iawn o gael Dyfarniad Marjorie Boxall yng Ngorffennaf 2009 ac er bod y grant Rhagori wedi dod i ben yng Ngorffennaf 2009, mae'r grŵp anogaeth yma o hyd, ac yn cael ei ariannu yn awr o gyllideb yr ysgol. Rydym yn falch iawn o sylwadau a wnaethpwyd mewn adolygiad canol tymor yn ddiweddar:

> 'Ethos llawn gofal ac anogaeth drwy'r ysgol gyfan.'
>
> 'Mae'r defnydd o egwyddorion anogaeth ac Addysg Gwerthoedd yn hybu dysgwyr deallus yn emosiynol.'

Mae naws gadarnhaol yn Ysgol Wdig erbyn hyn a hinsawdd addas i ddysgu. Mae'n ysgol sydd bellach yn cael ei pharchu yn y gymuned. Rydym yn sicr wedi cymryd camau breision mewn 4 blynedd. Ac fel y dywed ein datganiad o genhadaeth, sydd i'w weld yn y fynedfa – 'Dyro dy law i ni, Ac fe awn i ben y mynydd'.)
Teimlwn ein bod yn cefnogi ac yn cynorthwyo pob plentyn yn yr ysgol i gyflawni ei botensial yn llawn, yn addysgol, a hefyd fel dinasyddion y dyfodol. Rwy'n credu o ddifrif mai i'r grŵp anogaeth y mae'r clod am sicrhau ein bod wedi dringo rhan dda o'r ffordd i fyny'r mynydd hwnnw.

Manylion cyswllt:

Mari Brame, Pennaeth, Ysgol Wdig

E-bost: head.goodwick@pembrokeshire.gov.uk

Astudiaeth Achos E
Ysgol Gymunedol Llangatwg

Ysgrifennwyd gan: Gavin Thomas, Arweinydd yr Uned Cynorthwyo Disgyblion.

Sut yr aethom ati i sefydlu Grŵp Anogaeth

Yn Llangatwg rydym wedi datblygu Grŵp Anogaeth ac Uned Cynorthwyo Disgyblion sy'n diwallu anghenion dysgwyr rydym wedi nodi bod arnyn nhw angen cymorth ychwanegol nad oedd ar gael o'r blaen.

Rydym yn gweithio gyda dysgwyr sydd â phroblemau hyder a hunan-barch. Rydym hefyd yn ceisio helpu'r rhai hynny sydd â phroblemau ymddygiad, nodi problemau sylfaenol y dysgwyr a gweithio gyda dysgwr unigol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r Grŵp Anogaeth a'r Uned Cynorthwyo Disgyblion mewn bodolaeth ers 4 blynedd. Cawsant eu sefydlu yn dilyn cydnabyddiaeth eang bod ar rai dysgwyr angen amser a chymorth penodol er mwyn datblygu eu sgiliau. Y nod o hyd yw cael y dysgwyr yn ôl i addysg brif ffrwd am gymaint o amser ag sy'n bosibl, wedi'u harfogi â'r sgiliau a'r cymhelliant angenrheidiol i ehangu eu gwybodaeth a chynyddu eu gallu i ddysgu.

Grŵp Anogaeth

Rydym yn gweithredu Grŵp Anogaeth blwyddyn 7 ac 8, pob un yn cynnwys 12-14 o ddysgwyr. Rydym yn cyfarfod ar bedwar bore'r wythnos am frecwast ac mae'r dysgwyr yn dilyn cynllun gwaith er mwyn datblygu sgiliau cymdeithasol, cynyddu hunanhyder a hunan-barch a helpu'r dysgwyr yn gyffredinol â'r symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Mae'r Grŵp hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglen gweithgareddau awyr agored sydd wedi'i chynllunio'n benodol i ddatblygu sgiliau cydweithio mewn tîm, sgiliau datblygu tîm yn ogystal â hyder a hunan-barch. Mae'r rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dewisir y dysgwyr drwy gysylltu ag athrawon blwyddyn 6 ac athrawon dosbarth yn gynnar ym mlwyddyn 7.

Yn dilyn hynny rydym yn cwblhau Proffil Boxall ar gyfer pob dysgwr. Mae hyn yn rhoi crynodeb cywir i ni o bob dysgwr a pha agweddau y mae angen i ni eu datblygu gyda'r dysgwr hwnnw.

Uned Cynorthwyo Disgyblion

Mae'r Uned yn barhad o'n Grŵp Anogaeth ac mae'n darparu ar gyfer dysgwyr o flwyddyn 7 i flwyddyn 11. Mae 41 o ddysgwyr ar y rhestr ar hyn o bryd. Mae gan bob dysgwr amserlen bersonol y cytunwyd arni ac mae'r amser y maen nhw'n ei dreulio yn yr Uned yn amrywio o bedair awr yr wythnos i fod yno drwy'r adeg.

Rydym yn cwblhau Proffil Boxall ar gyfer pob dysgwr yn yr un modd â dysgwyr y Grŵp Anogaeth. Mae dau aelod o staff yn bresennol bob amser, fel yn achos y Grŵp Anogaeth, ac mae'r Uned yn cael ei rhedeg yn debyg iawn i Grŵp Anogaeth Clasurol. Yr unig agweddau y penderfynasom eu newid oedd gosodiadau'r ystafell, gan nad oeddem yn dymuno cael holl nodweddion lleoliad cynradd. Rydym yn credu'n gryf ein bod wedi datblygu'r lleoliad mwyaf addas i'n dysgwyr a'u hanghenion.

Yn ystod eu cyfnod yn yr Uned mae'r dysgwyr yn cwblhau nifer o wahanol dasgau, gan gynnwys y canlynol:

- sgiliau sylfaenol Mathemateg a Saesneg;
- gwaith gwirfoddol yn y gymuned;
- taflenni gwaith SEAL;
- datblygu sgiliau cymdeithasol a meithrin hyder;
- rhaglen gweithgareddau awyr agored;
- tasgau grŵp;
- gwaith prif ffrwd i baratoi ar gyfer dychwelyd i'r dosbarth;
- gwaith cwrs (CA4).

I ble rydym yn mynd nesaf

- Angen datblygu gwell cysylltiadau â rhieni.
- Heb os nac oni bai rydym yn dal i esblygu.
- Prosiectau newydd yn yr ysgol a'r gymuned.
- Gweithio gydag ysgolion bwydo.
- Cysylltu ag ysgolion eraill yn yr Awdurdod Lleol.

Manylion cyswllt:

Gavin Thomas
Grŵp Anogaeth/Arweinydd yr Uned Cynorthwyo Disgyblion

Ffôn: 01639 634700

Astudiaeth Achos F
Ysgol Arbennig Mounton House, Sir Fynwy

Ysgrifennwyd gan Teresa Munting, Pennaeth Cynorthwyol

Ein hysgol

Ysgol arbennig breswyl ar gyfer bechgyn 11-16 oed yw Mounton House. Mae gan bob dysgwr ddatganiad Angen Addysgol Arbennig llawn. Cyfeirir ein dysgwyr o nifer o awdurdodau cyfagos yn ogystal ag ysgolion sir Fynwy. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag 13 Awdurdod Lleol. Mae 61 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Rydym yn cynnig cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol yn CA3 a CA4 i bob dysgwr, gan gynnwys llwybrau 14-19 unigol i ddysgwyr CA4. Cyflwynir enwau dysgwyr ar gyfer arholiadau TGAU, Lefel Mynediad a Sgiliau Allweddol yn ogystal â chymwysterau galwedigaethol drwy gysylltiadau â'r coleg/gwasanaeth ieuenctid.

Ein dysgwyr

Mae dysgwyr yn cyrraedd Mounton House fel arfer ag agweddau negyddol iawn tuag at eu hunain ac at ddysgu. Mae eu llwybrau tuag atom ni wedi bod yn amrywiol, gan gynnwys gwaharddiadau, diffyg presenoldeb, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a llawer iawn mwy. Rydym yn gweithio gyda bechgyn nad yw ysgolion a dysgu yn gyffredinol wedi bod yn brofiadau llwyddiannus iddyn nhw. Yn aml iawn, maen nhw'n amheus o oedolion, maen nhw'n gyndyn o ymddiried mewn pobl eraill, mae ganddyn nhw agwedd ymosodol, problemau rheoli tymer a diffyg hyder, ac maen nhw'n ansicr, yn mynd i'w cragen a heb lawer o hunan-barch. Mae diffyg presenoldeb yn yr ysgol wedi golygu lefelau llythrennedd a rhifedd isel, sgiliau cyfathrebu gwael a sgiliau cymdeithasol gwael. Mae problemau emosiynol hefyd yn gwneud dysgu'n anodd ac yn achosi i'n dysgwyr ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol.

Mae lles emosiynol yn flaenoriaeth i'n dysgwyr ac mae gwersi Llythrennedd Emosiynol a SEAL ar yr amserlen bob wythnos.

Tŷ Seren – Ein Grŵp Anogaeth

Mynegwyd pryder gan aelodau o'r staff ynglŷn â rhai dysgwyr nad oedden nhw fel pe baent yn ffynnu'n addysgol, yn gymdeithasol, yn emosiynol nac yn ymddygiadol. Roedd ymddygiad amhriodol i oedran yn cael ei gofnodi.

Edrychwyd ar anhwylder ymlyniad ac anawsterau datblygiadol a nodwyd dysgwyr a oedd angen amgylchedd "anogaeth" i ffynnu, hyd yn oed yn 11-16 oed. Hyfforddwyd

staff gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth a gwnaethpwyd cynlluniau i sefydlu Tŷ Seren fel ymyriad anghenion dysgu ychwanegol. Roedd angen i ni gynyddu ymwybyddiaeth staff o'r problemau ac, yn fwyaf arbennig, eu hymwybyddiaeth o waith grwpiau anogaeth. Cynhaliwyd hyfforddiant mewn swydd ar gyfer yr holl staff a rhoddwyd cyflwyniad i'r llywodraethwyr. Hysbyswyd y rhieni drwy'r cylchlythyr. Roedd yr Uwch Dîm Rheoli yn gefnogol a dechreuwyd gwneud cynlluniau ar gyfer ein grŵp anogaeth, gan ddefnyddio cyllid Rhagori.

Neilltuwyd rhan o ystafell fwyta fawr a ganwyd Tŷ Seren! (Hydref 2007) Mae Tŷ Seren yn dilyn egwyddorion craidd grwpiau anogaeth ac mae'r naws wedi treiddio drwy'r ysgol gyfan – agwedd sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae'r dysgwyr yn cael eu cyfeirio a'u dynodi drwy'r Proffil Boxall ac rydym yn disgwyl yn eiddgar am y Proffil Uwchradd!

Fel ymyriad CA3/4 rydym yn gweithio ar sail sesiynau yn hytrach na diwrnodau cyfan yn Nhŷ Seren. Mae'r dysgwyr fel rheol yn cael 4 sesiwn yr wythnos, ac mae cyfle i ddod i'r clwb cinio a'r clwb cyn ysgol.

Mae Tŷ Seren yn cael ei redeg gan gynorthwyydd addysgu lefel uwch a chynorthwyydd addysgu ond y Pennaeth Cynorthwyol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol.

Cysylltwyd â'r rhieni a'u gwahodd i ddod i'r ysgol a dechreuodd y dysgwyr ar eu sesiynau. Gweithredir polisi "drws agored" ar gyfer staff, llywodraethwyr, asiantaethau allanol a rhieni. Rydym hefyd wedi cynorthwyo ysgolion eraill yn sir Fynwy i sefydlu eu grwpiau anogaeth eu hunain.

Mae'n anodd mesur data; sut mae mesur gwên, cyswllt llygad, cyfathrebu cyfforddus, hapusrwydd, teimladau o hunanwerth a sicrwydd, ac ati? Yr hyn sydd gennym yw lefelau presenoldeb uwch, gwell lefelau llythrennedd a rhifedd, llai o hunan-niweidio, gwell ymddygiad "ar dasg" a llai o ymosodiadau corfforol a geiriol, difrod, rhegi, dianc ac ati. Mae'r dysgwyr yn ymwneud â'u dysgu, yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u hymddygiad, a hyd yn oed yn ei fwynhau!

Gweithgareddau yn Nhŷ Seren

Cymorth â llythrennedd a rhifedd
Sesiynau llythrennedd emosiynol
Sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd
Clwb cinio/sesiynau te a choffi
Gweithgareddau cynyddu hunan-barch
Gwaith pwnc
Cymorth â gwaith dosbarth/gwaith cwrs
Gweithgareddau ymlacio
Rheoli dicter
Gweithgareddau ymarferol
Sgiliau cyfathrebu
Drama, garddio, chwarae
Ymarferion i'r ymennydd
SEAL (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu)

Pryderon

Fel arfer, mae arian ar gyfer adnoddau yn broblem. Cawsom arian Rhagori, a defnyddiwyd yr arian hwnnw i gefnogi'n dysgwyr mwyaf agored i niwed drwy sefydlu Tŷ Seren. Rydym hefyd wedi cynnwys agweddau ar staffio ac adnoddau yn ein

Cynlluniau Gwella Ysgol dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r adnoddau dynol yn hanfodol. Mae staff effeithiol yn bwysicach na dim.

Mae dysgwyr sy'n mynychu Tŷ Seren ac yn dychwelyd i'w dosbarthiadau ar gyfer rhai gwersi yn gallu peri rhywfaint o bryder os nad yw'r gwaith wedi cael ei wahaniaethu gan staff. Rhaid i'r dysgwyr allu cael mynediad i'r cwricwlwm yn y dosbarthiadau y maen nhw'n dychwelyd iddyn nhw.

Ble rydyn ni'n mynd nesaf

- Gwella'r modd rydym yn cynnwys y rhieni.
- Paratoi ar gyfer Dyfarniad Ansawdd Boxall.
- Hyfforddiant â'r Proffil Boxall Uwchradd.
- Datblygu data mesuradwy er mwyn mesur canlyniadau.

Manylion cyswllt:

Teresa Munting, Pennaeth Cynorthwyol

Ffôn: 01291 635050
E-bost: tm@mountonhouse.org.uk

Astudiaeth Achos G
Ysgol Gynradd Ynysddu

Ysgrifennwyd gan Alison Hughes, Ysgol Gynradd Ynysddu.

Y Clwstwr

Mae Ysgol Ynysddu yn cynnal dau grŵp anogaeth – un ar gyfer plant dosbarth derbyn/blwyddyn 1 a dosbarth Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Blynyddoedd 3/4 sy'n derbyn plant o ranbarth Islwyn yng Nghaerffili.

Y Grŵp Anogaeth

Mae'r dosbarth yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol ac mae'n cymryd hyd at wyth plentyn am bedwar diwrnod yr wythnos. Ar ddydd Mercher mae'r plant yn

dychwelyd i'w hysgolion eu hunain ac mae staff y Grŵp Anogaeth yn ymweld â'r ysgolion. Mae'r plant gyda ni am rywle rhwng dau a phedwar tymor.

Sut y dechreuodd popeth

Sefydlwyd y dosbarth bum mlynedd yn ôl fel rhan o brosiect peilot ar gyfer Caerffili. Ar y dechrau roedd y grŵp yn derbyn plant o'r clwstwr. Cafodd hyn ei ymestyn yn yr ail flwyddyn i gynnwys plant o ranbarth ehangach Islwyn. Sefydlwyd y dosbarth gan staff yr ysgol â chefnogaeth a hyfforddiant gan y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth.

Rhedeg y Grŵp

Mae'r broses ddewis yr un fath i raddau helaeth â'r broses ddethol ar gyfer y Grŵp Anogaeth arferol, gan fod panel yn cael ei sefydlu a'r plant yn cael eu dewis ar sail blaenoriaeth. Fel arfer rydym yn anfon nodyn at yr ysgolion yn ein rhanbarth i'w hatgoffa o ddyddiad y panel ac yn pennu dyddiad cau ar gyfer derbyn atgyfeiriadau – ond mae'n rhaid cael hyblygrwydd! Mae'r plant yn cael eu cyfeirio i'r ysgol yn uniongyrchol gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio'r awdurdod lleol. Mae'r ffurflen hon yn dangos bod y rhieni'n rhoi caniatâd ac mae'n cynnwys cofnod o ymyriadau blaenorol. Bydd aelod o'r staff yn ymweld â'r ysgol, yn cynnal asesiad Proffil Boxall ac yn arsylwi ar y plentyn yn amgylchedd ei ysgol arferol. Yn dilyn hyn cyflwynir adroddiad i'r panel a thrafodir pob plentyn yn unigol.

Mae'r panel yn cynnwys penaethiaid yr ysgol gynnal a'r ysgol arferol, staff y Grŵp Anogaeth, cynrychiolwyr gwasanaethau cynhwysiant yr awdurdod lleol – gan gynnwys gwasanaethau cymorth ymddygiad a gwasanaethau seicoleg addysgol. Bydd y gwasanaethau cymorth ymddygiad yn hysbysu ysgolion a rhieni os yw'r plentyn wedi cael lle ac yn trefnu cludiant. Os yw plentyn wedi'i ddynodi fel un sydd angen lle mewn lleoliad anogaeth a bod y dosbarth agosaf yn llawn bydd yn cael ei ystyried ar gyfer lle mewn darpariaeth arall. Gwneir y penderfyniad hwn gan benaethiaid a staff cynhwysiant mewn cyfarfod yn dilyn y panel.

Mae'n bwysig ystyried cydbwysedd y grŵp bob amser, ac yn ddelfrydol bydd gennych gyfuniad cyfartal o blant mwy swnllyd a phlant sydd wedi mynd i'w cragen. Mae'n bwysig hefyd bod rhieni'n ymwybodol o'r dechrau mai drwy broses banel y dewisir y plant ac nad oes sicrwydd o le yn yr ysgol agosaf. Mae'n bosibl hefyd, mewn rhai achosion, nad Anogaeth yw'r ymyriad mwyaf priodol i'r plentyn.

Bydd angen i unrhyw awdurdodau sy'n sefydlu grwpiau anogaeth yn y modd hwn gynyddu ymwybyddiaeth yn y clwstwr o'r hyn yw darpariaeth Anogaeth, a dangos mai partneriaeth ydyw. Cynhaliwyd hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i benaethiaid yn rhanbarth Islwyn ac i gydgysylltwyr AAA drwy'r fforwm cydgysylltwyr AAA. Lluniwyd taflenni gwybodaeth a llawlyfrau i ysgolion eu defnyddio wrth siarad â rhieni am atgyfeiriad Anogaeth posibl. Mae angen pwysleisio hefyd mai ymyriad arall yw Anogaeth, nad yw'n ateb i bob problem, ac fel unrhyw ymyriad arall gall weithio i rai plant ond nid i eraill. Mae'r sesiynau codi ymwybyddiaeth yn rhywbeth y mae angen eu cynnal eto bob hyn a hyn gan fod staff ysgolion yn newid. Rydym hefyd yn gwahodd penaethiaid, cydgysylltwyr AAA ac athrawon dosbarth i ymuno â ni am ddiwrnodau agored a Diwrnodau Aros a Chwarae. Mae manteision deublyg i hyn –

mae'n rhoi cyfle i athrawon weld y plant yn y lleoliad anogaeth ac i rieni weld staff o'r ddwy ysgol, gan hybu partneriaeth yn natblygiad eu plant.

Manylion cyswllt:

Alison Hughes, Athrawes Dosbarth/Cydgysylltydd AAA
Ysgol Gynradd Ynysddu

Ffôn: 01495200223
E-bost: hughea1@caerphilly.org.uk

Astudiaeth Achos H
Ysgol Glancegin

Ysgrifennwyd gan Bethan Morris-Jones, Pennaeth.

Cefndir

Mae Grwpiau Anogaeth yn gymharol newydd i Wynedd a bron yn gwbl ddieithr i'r rhan fwyaf o ysgolion y sir.

Ar y cyd â'r Awdurdod Addysg a thrwy gyllid Rhagori, llwyddwyd i sefydlu grŵp clwstwr o ysgolion i gyflwyno'r cysyniad o anogaeth yn Hydref 2009. Ysgol Gynradd Glancegin yw'r ysgol arweiniol yn y prosiect hwn, a hi yw'r unig ysgol lle mae ystafell anogaeth wedi'i sefydlu. Mae dysgwyr yn yr ysgolion eraill, ysgol uwchradd, ysgol fwydo ac ysgol fabanod, yn rhannu cynorthwyydd addysgu i ddarparu gweithgareddau anogaeth.

Mae 200 o blant yn Ysgol Glancegin. Mae'r ysgol yn tyfu, ac mae'n gwasanaethu ystâd dai cyngor Maesgeirchen ar gyrion Bangor lle mae tair mil o bobl yn byw. Cafodd ei thynnu oddi ar restr mesurau arbennig Estyn flwyddyn yn ôl ac mae'n dal i weithio'n galed i sicrhau bod dysgwyr yn barod ac yn agored i ddysgu, ac i wella'r safonau y maen nhw'n eu cyrraedd.

Sut y sefydlwyd y Grŵp Anogaeth

Ym Medi 2008, drwy ddatganoli cyllid AAA, sefydlwyd Tîm Cynhwysiant a datblygwyd strategaeth ymyrryd newydd ar gyfer yr ysgol gyfan, gan ganolbwyntio i ddechrau ar wella llythrennedd. Dan arweiniad athro AAA arbenigol, a thrwy greu tair swydd cynorthwyydd addysgu amser llawn, sefydlwyd y tîm a darparwyd hyfforddiant mewnol. Gan weithio mewn cysylltiad agos â Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yr Awdurdod Lleol, datblygwyd strategaeth dair haen yn seiliedig ar Fapio Darpariaeth drwy Syniadau sy'n Canolbwyntio ar Atebion, gyda'r bwriad o gyflwyno ymyriadau ymddygiad fel ail gam.

Er bod creu newid systematig mewn sefydliad a oedd yn methu cynt yn gymharol syml, cymerodd y dasg o leihau effaith hirdymor methiant, a newid agweddau o fod yn canolbwyntio ar broblem i fod yn canolbwyntio ar ateb ac yn gynhwysol, lawer mwy o amser a llawer mwy o ymdrech. Er bod llawer wedi ei gyflawni mae llawer o waith i'w wneud eto, ond daeth sefydlu Grŵp Anogaeth yr Aelwyd ar yr union adeg yr oedd ei angen i atal pobl rhag digalonni'n ormodol â'r gwaith caled o ymdrin o ddydd i ddydd ag effeithiau ymddygiad heriol, hunan-barch isel neu ddiffyg hyder, a holl ganlyniadau eraill amddifadedd cymdeithasol ac economaidd ar y bobl ifanc sydd yn ein gofal.

Erbyn hyn roeddem mewn sefyllfa i wneud rhywbeth gwahanol eto a chynnig math newydd o ymyriad i ddysgwyr â rhieni pryderus, sy'n ddiolchgar, ac sy'n dangos parch cynyddol at yr ysgol a'i phartneriaeth â'r cartref.

Yr allwedd i lwyddiant yr Aelwyd yw'r statws y mae wedi'i gael. Mae'n rhedeg am 50% o'r amser ac mae'r grŵp yn cael ei arwain gan ddau gynorthwyydd addysgu o'r Tîm Cynhwysiant. Bron i ddwy flynedd ers creu'r tîm, mae'r staff erbyn hyn yn fedrus iawn, gan eu bod wedi manteisio i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd hyfforddiant a gynigiwyd iddyn nhw.

Mynychodd y ddau aelod o staff yr Aelwyd, ynghyd â'r Pennaeth a'r Dirprwy, hyfforddiant a oedd yn cael ei roi gan Wasanaeth Seicoleg Addysgol yr Awdurdod Lleol, a threfnwyd sesiwn hyfforddiant gwyll ar gyfer holl staff yr ysgol. Mae lleoliad yr Aelwyd, mewn rhan dawel o'r adeilad lle nad oes dysgwyr eraill nac aelodau eraill o'r staff yn mynd heibio, yn ychwanegu at naws unigryw'r ystafell ac mae'r addurniadau a'r dodrefn del yn ei wneud yn lle arbennig i'r plant sy'n dod yno.

Llwyddiant ac effaith ein Grŵp Anogaeth

Er mai dim ond ers wyth mis y mae'r Aelwyd wedi agor, mae'n ddiddorol sylwi ar yr effaith fyrlymus y mae wedi'i gael drwy'r adran iau.

Mewn cyfnod byr, mae'r Aelwyd wedi cael effaith gadarnhaol ac mae dau ddisgybl wedi llwyddo i ddychwelyd i'w dosbarth yn llawn-amser. Mae plentyn arall ond yn mynychu am ddau o'r pum sesiwn erbyn hyn a bydd yn dychwelyd i'w ddosbarth yn llawn-amser ym mis Medi.

Mae'r ysgol yn dawelach, mae'r plant a'r oedolion yn hapusach ac mae teimlad o optimistiaeth ein bod wedi llwyddo rywsut i oresgyn yr heriau mwyaf yr oeddem yn eu hwynebu.

Er bod y cysyniad o anogaeth yn dal yn newydd i ni rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar gysylltiadau sydd wedi eu gwneud yn barod ag ysgolion anogaeth eraill er mwyn gweithio mewn partneriaeth a datblygu ein harbenigedd.

Manylion cyswllt

Bethan Morris-Jones

Ffôn: 01248 353097
E-bost: pennaeth@glancegin.gwynedd.sch.uk

Astudiaeth Achos I
Castell-nedd Port Talbot

Ysgrifennwyd gan Huw Davies, Castell-nedd Port Talbot.

Ers agor ei grŵp anogaeth cyntaf yn 2005, mae awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud cynnydd sylweddol â'r dasg o gyflwyno'r cysyniad o anogaeth i ysgolion. Hyd yn hyn, mae dros 80 o staff wedi mynychu cwrs hyfforddiant pedwar diwrnod y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth.

Gwelir tystiolaeth gynyddol o fanteision uniongyrchol grwpiau anogaeth i ddysgwyr, rhieni ac ysgolion. Mae atgyfeiriadau i uned cyfeirio disgyblion cynradd yr awdurdod wedi arafu. Mae nifer y dysgwyr â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig yn gostwng gan fod yr awdurdod wedi mabwysiadu polisi o adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar.

Gwerthusodd yr Awdurdod ei grwpiau anogaeth yn ddiweddar a daeth i'r casgliad eu bod yn cael effaith ar ddysgwyr unigol a'u bod hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella'r ysgol gyfan. Roedd tystiolaeth o welliant amlwg yn y berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni a rhwng y staff a'r dysgwyr, gwell presenoldeb, ac awyrgylch gwahanol gyda gwell cyfathrebu rhwng staff, sydd wedi datblygu mwy o ddealltwriaeth o blant ag anawsterau.

O ran y plant, maen nhw dangos mwy o hyder, hunan-barch, a gwell sgiliau cymdeithasol. Mae eu hymddygiad tuag at oedolion a dysgwyr eraill wedi gwella, ac mae sgiliau llythrennedd wedi cynyddu. Mae nifer y gwaharddiadau wedi lleihau ynghyd â nifer y plant sy'n cael eu cyfeirio at ddarpariaeth arbenigol.

Ym Medi 2009, dilynodd 19 o staff yr hyfforddiant i fod yn rhan o system Hyfforddi Hyfforddwyr y Rhwydwaith Grwpiau Anogaeth. Mae grwpiau anogaeth yn ein hawdurdod bellach yn gweithio gyda 300 o blant. Gan ryfeddu at eu heffaith, cytunodd y penaethiaid y dylid defnyddio grant Rhagori Llywodraeth Cynulliad Cymru (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion) yn yr Awdurdod i hybu a datblygu grwpiau anogaeth.

Er mwyn cefnogi staff grwpiau anogaeth, cynhelir cyfarfodydd tymhorol sydd yn ein barn ni'n dangos bod y gwaith y maen nhw'n ei wneud gyda rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael ei werthfawrogi. Bydd staff sydd wedi eu hyfforddi yn ddiweddar yn cefnogi ac yn gweithio gydag ysgolion eraill sydd ar fin sefydlu eu darpariaeth eu hunain.

“Mae anogaeth wedi cael effaith aruthrol ar yr awyrgylch mewn ysgolion. Ar ôl ymyriad am gyfnod mae dysgwyr yn gallu cael mynediad i’r cwricwlwm ochr yn ochr â’u cyfoedion,” meddai Wynne Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Rhydyfro. “Mae’n darpariaeth anogaeth wedi gweithio gyda rhai plant sydd wedi bod yn mynd drwy drawma teuluol difrifol. Ers sefydlu grŵp anogaeth nid oes neb wedi cael ei wahardd.”

Mae datblygu grwpiau anogaeth wedi cael cymaint o effaith fel bod llawer o ysgolion o awdurdodau eraill wedi bod yn awyddus i ymweld a dysgu o’n profiad. Yn bwysicach fyth, mae ein dysgwyr, rhieni a staff yn cydnabod bod ein hysgolion yn llwyddo’n well nag erioed.

Manylion cyswllt

Huw Davies
Swyddog Datblygu Cynhwysiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

E-bost: h.e.davies@neath-porttalbot.gov.uk

Atodiad 2: Deunyddiau enghreifftiol

Rhestr gyfeirio ar gyfer dewis dysgwyr

Mae'r rhestr gyfeirio ar gyfer dewis eich dysgwyr yn dibynnu ar y modd y mae'r grŵp yn cael ei weld yn eich ysgol. Mae sianeli cyfathrebu clir yn bwysig iawn.

A. Os yw mynediad i'r grŵp anogaeth yn cael ei weld fel rhan gyntaf pecyn cefnogi sy'n cael ei gynnig yn eich ysgol:

Cam		Cwblhawyd? ☑
Cam 1:	Trafod dysgwyr sy'n bodloni'r meini prawf gydag athrawon dosbarth/pwnc	☐
Cam 2:	Cadw cofnodion o gyfarfodydd a deilliannau sy'n cael eu hawgrymu	☐
Cam 3:	Trafod y posibilrwydd o gael mynediad i grŵp anogaeth gyda rhieni/gwarcheidwaid	☐
Cam 4:	Defnyddio'r dulliau asesu a ddewiswyd gan yr ysgol i sicrhau bod yr angen yn gywir	☐
Cam 5:	Edrych ar y cyfuniad mewn grŵp i benderfynu pa bryd mae mynediad yn briodol	☐

B. Os yw mynediad i'r grŵp anogaeth yn cael ei weld fel cyfle i'w gynnig ar ôl rhoi cynnig ar fesurau eraill yna efallai y byddai'r canlynol yn fwy priodol.

Cam		Cwblhawyd? ☑
Cam 1:	Trafod dysgwyr sy'n bodloni'r meini prawf gydag athrawon dosbarth/pwnc	☐
Cam 2:	Trafod pryderon a strategaethau posibl gyda rhieni/gwarcheidwaid	☐
Cam 3:	Cyfeirio dysgwr at asiantaethau allanol Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad Seicolegydd Addysg	☐ ☐
Cam 4:	Rhoi cynnig ar y strategaethau a awgrymwyd gan y ddwy asiantaeth uchod	☐

Cam		Cwblhawyd?
Cam 5:	Cadw cofnod o strategaethau y rhoddwyd cynnig arnyn nhw a chanlyniadau	☐
Os cymorth gan y grŵp anogaeth fyddai'r cam nesaf yna dilynwch restr 'A' uchod		

Gwahoddiadau er mwyn Cynnwys rhieni

I mam, dad, taid a nain

Dewch i'r diwrnod Aros a Chwarae. Byddwn yn cael te a chacennau. Dydd Gwener, 5 Mehefin am 10 o'r gloch

Llawer o gariad
Keiron

xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx
xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx

Rhestr gyfeirio ar gyfer arsylwi

Darperir rhestr gyfeirio ar gyfer arsylwi fel adnodd am ddim gan *Special Needs Information Press*. Mae cyfieithiad o'r rhestr i'w weld isod ac mae'r fersiwn Saesneg gwreiddiol ar gael yn: http://www.snip-newsletter.co.uk/pdfs/downloads/behaviour_audit.pdf. Y syniad oedd datblygu graddfa nad yw'n cymryd llawer o amser staff ond sy'n darparu gwybodaeth am gyrhaeddiad emosiynol, ymddygiadol a datblygiadol canfyddedig dysgwr ar yr achlysur hwnnw.

YMDDYGIAD – DYSGU Dyddiad						
Enw'r dysgwr Blwyddyn						
1) Yn gwrando'n astud ac yn dangos diddordeb yn yr ysgol						
Yn rhoi sylw priodol i'r athro/athrawes	1	2	3	4	5	6
Yn dechrau tasgau heb ormod o oedi	1	2	3	4	5	6
Yn cadw at y dasg er bod cyfoedion yn ceisio tynnu ei sylw	1	2	3	4	5	6
Yn gallu gweithio heb lawer o ymyriadau gan oedolion	1	2	3	4	5	6
Yn dangos cymhelliant i gwblhau tasgau	1	2	3	4	5	6
Yn cwblhau aseiniadau ar ôl gwersi e.e. gwaith cartref	1	2	3	4	5	6
Yn gwrando ar gyfarwyddiadau llafar ac yn eu dilyn	1	2	3	4	5	6
Yn gallu gweithio heb dynnu sylw dysgwyr eraill	1	2	3	4	5	6
Yn dangos pleser wrth gael marciau da	1	2	3	4	5	6
Yn barod i ddal ati pan mae'r gwaith yn mynd yn anodd	1	2	3	4	5	6
2) Yn drefnus wrth ddysgu						
Yn gallu rheoli sefyllfaoedd dysgu unigol	1	2	3	4	5	6
Yn dangos balchder mewn cynhyrchu gwaith wedi'i gyflwyno'n dda	1	2	3	4	5	6
Yn gweithio ar gyflymder rhesymol	1	2	3	4	5	6
Yn meddu ar y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer y wers	1	2	3	4	5	6
Yn gofyn caniatâd i ddefnyddio eitemau sy'n eiddo i bobl eraill	1	2	3	4	5	6
Yn cwblhau gwaith mewn pryd	1	2	3	4	5	6
Nid yw'n colli llyfrau	1	2	3	4	5	6
3) Yn gyfathrebwr effeithiol						
Yn cyfathrebu'n glir ac yn cyfrannu at drafodaethau	1	2	3	4	5	6
Yn cyfarch staff a dysgwyr yn briodol	1	2	3	4	5	6
Yn gallu addasu llais, traw a goslef yn briodol	1	2	3	4	5	6
Yn defnyddio arwyddion di-eiriau e.e. cyswllt llygad	1	2	3	4	5	6
Yn defnyddio confensiynau iaith lafar – cymryd tro mewn sgwrs	1	2	3	4	5	6
4) Yn gweithio'n effeithiol mewn grŵp						
Yn cydweithredu mewn sefyllfa grŵp	1	2	3	4	5	6
Yn gweithio ar y cyd â phobl eraill	1	2	3	4	5	6
Yn gwrando ar safbwyntiau pobl eraill ac yn eu hystyried	1	2	3	4	5	6
Yn gallu derbyn rolau amrywiol mewn grŵp	1	2	3	4	5	6
Yn gallu derbyn siom os nad yw'n cael ei ddewis ar gyfer tasg	1	2	3	4	5	6
Yn gallu dal ati i weithio heb oruchwyliaeth oedolyn	1	2	3	4	5	6
5) Yn gofyn am gymorth pan fo angen						
Yn ceisio cael sylw oedolion yn briodol	1	2	3	4	5	6
Yn gwneud defnydd priodol o amser anstrwythuredig	1	2	3	4	5	6
Ddim yn dechrau tarfu ar bobl eraill os nad oes cymorth ar gael	1	2	3	4	5	6
Yn gallu aros am ymateb oedolyn heb golli amynedd neu flino	1	2	3	4	5	6

YMDDYGIAD – YMDDWYN Dyddiad						
Enw'r dysgwr Blwyddyn						
1) Yn dangos parch tuag at staff						
Yn barod i gydweithredu ac ymateb yn gadarnhaol i staff	1	2	3	4	5	6
Yn gwrando ar gyfarwyddiadau llafar ac yn ymateb iddyn nhw	1	2	3	4	5	6
Yn gwrtais/rheoli tymer yng nghwmni staff addysgu	1	2	3	4	5	6
Yn gwrtais/rheoli tymer yng nghwmni staff eraill	1	2	3	4	5	6
Yn cyfrannu at sgyrsiau ar adegau priodol	1	2	3	4	5	6
Yn caniatáu i bobl eraill fynegi eu barn heb dorri ar draws	1	2	3	4	5	6
Yn deall ac yn cymhwyso gwahaniaethau cymdeithasol	1	2	3	4	5	6
Yn ymateb yn onest i sefyllfaoedd bob amser	1	2	3	4	5	6
Yn gallu derbyn cyfrifoldeb heb wadu	1	2	3	4	5	6
Yn ymddiheuro heb orfod cael ei atgoffa	1	2	3	4	5	6
2) Yn cynnal perthynas briodol â dysgwyr						
Yn dangos parch at bob dysgwr arall	1	2	3	4	5	6
Yn oddefol yn llafar a diragfarn						
Gellir ymddiried ynddo i beidio â bychanu dysgwyr eraill	1	2	3	4	5	6
Yn gallu gweld sefyllfaoedd o safbwynt rhywun arall	1	2	3	4	5	6
Yn gallu dygymod â grŵp mawr o ddysgwyr	1	2	3	4	5	6
Nid yw'n ceisio rhoi'r bai ar rywun neu rywbeth arall	1	2	3	4	5	6
Yn gallu cynnig cefnogaeth emosiynol i eraill	1	2	3	4	5	6
3) Yn torri ar draws ac yn ceisio cael sylw mewn ffyrdd priodol yn unig	1	2	3	4	5	6
Yn ceisio cael sylw athrawon yn briodol	1	2	3	4	5	6
Yn setlo i wneud tasgau heb ymddygiad osgoi	1	2	3	4	5	6
Yn caniatáu i gyfoedion ddysgu heb aflonyddu arnyn nhw	1	2	3	4	5	6
Yn meddu ar hunangymhelliant a heb fod angen llawer o fewnbwn gan oedolyn er mwyn cwblhau tasgau	1	2	3	4	5	6
Yn gallu aros i gael sylw	1	2	3	4	5	6
4) Yn gorfforol heddychlon						
Yn rheoli emosiynau'n briodol wrth wynebu anawsterau	1	2	3	4	5	6
Yn oddefol bob amser (geiriol/corfforol) tuag at oedolion	1	2	3	4	5	6
Yn osgoi gwrthdaro ag eraill	1	2	3	4	5	6
Yn chwilio am atebion i broblemau ac yn gweithredu ar eu sail	1	2	3	4	5	6
Yn rheoli hyrddiau emosiynol	1	2	3	4	5	6
Yn gweithredu fel cymodwr pan fo anghydfod yn codi rhwng dysgwyr	1	2	3	4	5	6

YMDDYGIAD – YMDDWYN Dyddiad						
Enw'r dysgwr Blwyddyn						
5) Yn parchu eiddo						
Yn gallu gofalu am ei eiddo ei hun	1	2	3	4	5	6
Yn parchu ac yn gofalu am eiddo pobl eraill	1	2	3	4	5	6
Yn gwrthod fandaliaeth a difrod bwriadol i eiddo	1	2	3	4	5	6

YMDDYGIAD – EMOSIYNOL Dyddiad						
Enw'r disgybl Blwyddyn						
1) Yn meddu ar empathi						
Yn dangos goddefgarwch o farn pobl eraill	1	2	3	4	5	6
Yn dangos ystyriaeth o deimladau pobl eraill	1	2	3	4	5	6
Yn ymateb mewn ffordd briodol er mwyn datrys sefyllfaoedd	1	2	3	4	5	6
Yn dangos emosiynau sy'n briodol i'r sefyllfa	1	2	3	4	5	6
Yn gallu derbyn disgyblaeth heb ddadlau	1	2	3	4	5	6
Yn ymddwyn mewn ffordd gymdeithasol dderbyniol yn yr ystafell fwyta	1	2	3	4	5	6
Yn ymddwyn mewn ffordd gymdeithasol dderbyniol ar dripiau	1	2	3	4	5	6
2) Yn ymwybodol o ymwneud cymdeithasol						
Yn dangos rhyngweithiadau cymdeithasol priodol i oedran	1	2	3	4	5	6
Yn rhyngweithio'n briodol â phlant eraill o'r un oed	1	2	3	4	5	6
Yn dangos ataliadau cymdeithasol e.e. ymyrryd â gofod personol	1	2	3	4	5	6
Yn rhyngweithio ag eraill y rhan fwyaf o'r amser	1	2	3	4	5	6
Yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y dosbarth	1	2	3	4	5	6
Yn gallu cadw cyfeillgarwch	1	2	3	4	5	6
3) Yn hapus						
Yn edrych ar bethau'n gadarnhaol	1	2	3	4	5	6
Yn gallu cymryd rhan a chael hwyl gydag oedolion a chyfoedion	1	2	3	4	5	6
Yn meddu ar synnwyr digrifwch	1	2	3	4	5	6
Yn ymddangos yn hapus ac yn fodlon y rhan fwyaf o'r amser	1	2	3	4	5	6
4) Yn hyderus						
Yn barod i siarad mewn sefyllfaoedd grŵp	1	2	3	4	5	6
Yn dangos diddordeb mewn ymgymryd â heriau newydd	1	2	3	4	5	6
Yn gallu derbyn canmoliaeth gyhoeddus	1	2	3	4	5	6
Yn disgwyl bod yn llwyddiannus	1	2	3	4	5	6
Yn gallu risgio methu	1	2	3	4	5	6
5) Yn sefydlog yn emosiynol						
Yn galonnog heb amrywiadau eithafol mewn hwyliau	1	2	3	4	5	6
Yn dangos gwytnwch emosiynol pan fo'n drist neu'n gynhyrfus	1	2	3	4	5	6
Yn dangos hunanreolaeth ac yn gallu rheoli ei deimladau ei hun	1	2	3	4	5	6
Yn gallu aros am foddhad neu gydnabyddiaeth	1	2	3	4	5	6
Yn gallu perchnogi problemau a dod o hyd i atebion mewnol	1	2	3	4	5	6

Taflen i rieni

Egwyddorion Grŵp Anogaeth

1. Edrychir ar y ffordd y mae plant yn dysgu o safbwynt **datblygiadol**, h.y. cyfnodau nid oedran
2. Mae'r ystafell ddosbarth yn lle **diogel**
3. Mae anogaeth yn bwysig er mwyn datblygu **hunan-barch**
4. Mae **iaith** yn ffordd hollbwysig o gyfathrebu
5. Mae pob **ymddygiad** yn fath o gyfathrebu
6. Mae **pontio** yn bwysig ym mywydau plant

Beth yw Grŵp Anogaeth?
Dosbarth bach ag amgylchedd strwythuredig, penodedig, lle gellir rhagweld digwyddiadau yw grŵp anogaeth. Mae'r plant sydd yn y grŵp yn cael cyfleoedd i ailbrofi profiadau 'anogaeth' cynnar.

Mae perthnasau cadarnhaol yn cael eu modelu gan yr athro/athrawes a'r cynorthwywyr addysgu. Ceir pwyslais ar ddatblygu iaith a sgiliau cyfathrebu.

Bydd plant sydd angen cymorth ychwanegol i'w helpu i setlo, gwrando, canolbwyntio, rhannu neu wneud ffrindiau hyd yn oed yn elwa o ganlyniad i fynychu grŵp anogaeth. Dangosir iddyn nhw sut i ddeall a chymedroli eu hemosiynau.

Mae'r plant yn gweithio mewn grŵp bach, mewn parau ac 1:1 gydag oedolyn.
Mae cyfleoedd dysgu ac addysgu wedi'u targedu'n ofalus yn galluogi plant i godi eu lefelau cyrhaeddiad.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol a pob polisïau ysgol yn cael ei gymryd mewn i ystyriaeth.

Mae rhieni a gwarcheidwaid yn cael gwybod beth sy'n digwydd ac yn cael eu hannog i weithio mewn partneriaeth â'r ysgol.

Mae amgylchedd Ystafell yr Enfys yn debyg i gartref, gydag ystafell fyw, cegin a lle bwyta. Mae'r plant sy'n mynychu'r grŵp yn aros gyda'u dosbarthiadau prif ffrwd hefyd, ac yn cymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol.

Mae'r plant sy'n mynychu'n grwpiau anogaeth yn egluro'n well na neb:

Rydym yn chwarae, rhannu a chael hwyl

Mae'r ystafell yn gyfforddus iawn ac mae'n gwneud i mi deimlo'n ddiogel ac yn hapus

Mae'n fy helpu i fod yn garedig wrth blant eraill

Mae dosbarth yr enfys wedi fy helpu i beidio ag ymladd gyda fy mrawd. Fe wnaethon nhw fy nysgu i gyfri mewn ffordd arbennig